



Rhif: 46992

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Papur Gwyn ar y Cynllun Aer Glân i Gymru

Chwefror 2023

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

OGL © Hawlfraint y Goron 2023 ISBN ddigiol 978-1-80535-470-3

Trosolwg

Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad Papur Gwyn ar y Cynllun Aer Glân i Gymru.

Camau i'w Cymrydd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau print bras, Braille ac iaith amgen o'r ddogfen hon ar gael ar gais.

Mae'r ymgynghoriad ar leihau allyriadau yn sgil llosgi tanwydd solet i ddibenion domestig (a gyhoeddwyd ar 13 Ionawr 2021) ar gael yn: [Papur Gwyn ar Fil Aer Glân | LLYW. CYMRU](#)

Manylion cyswll

Tîm y Rhaglen Aer Glân
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd,
CF10 3NQ

E-bost: PolisiAnsawddAer@llyw.cymru

Copiâu Ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymateb a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Linc i'r dogfennau ymgynghori: <https://www.llyw.cymru/papur-gwyn-ar-fil-aer-glan-cymru>

Cynnwys

Cynnwys.....	3
Cyflwyniad.....	4
Cynigion y Cynllun Aer Glân	6
Fframwaith gosod targedau.....	10
Fframwaith Rheoli Ansawdd yr Aer yn Lleol (LAQM)	14
Codi Tâl ar Ddefnyddwyr Ffyrdd.....	22
Cynigion ar Gerbydau sydd â'u Hinjans yn Segura	27
Llosgi Domestig.....	35
Grymuso Gweithluoedd i Fynd i'r Afael â Llygredd Aer	42
Y Gymraeg	50
Camau nesaf Llywodraeth Cymru	51
Atodiad A.....	52

Cyflwyniad

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar Fil Aer Glân Cymru **rhwng 13 Ionawr 2021 a 7 Ebrill 2021**. Mae'r ddogfen yn nodi'r darpariaethau drafft ar gyfer y Bil i weld beth yw cefnogaeth y cyhoedd. Oherwydd effeithiau pandemig COVID, cafodd Awdurdodau Lleol gyfle estynedig i ymateb i'r ymgynghoriad tan 16 Mehefin 2021. Mae gan Awdurdodau Lleol rôl allweddol o ran lleihau allyriadau ac roedd yn bwysig sicrhau eu bod yn gallu mynegi eu barn.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad. Mae'n cynnwys adborth o 73 o ymatebion, 61 yn ysgrifenedig a 12 ohonynt i'r ymgynghoriad ar-lein. Mae'n manteisio hefyd ar safbwyntiau a ddarparwyd mewn digwyddiad ar 11 Mawrth 2021 i drafod yr ymgynghoriadau ar Bapur Gwyn y Bil Aer Glân a Lleihau Allyriadau yn sgil Llosgi Tanwydd Solet at Ddibenion Domestig.

Mae'r holl ymatebion wedi'u hadolygu a byddant yn parhau i gael eu hystyried gan adrannau perthnasol ar draws Llywodraeth Cymru, partneriaid cyflawni a rhanddeiliaid i lywio'r gwaith o ddatblygu a gweithredu cynigion polisi.

Cyd-destun

Mae ansawdd aer yn effeithio ar bob un ohonom, ym mhob agwedd ar ein bywydau. Ansawdd aer gwael yw'r risg amgylcheddol fwyaf i iechyd y cyhoedd. Mae'n effeithio hefyd ar ein hamgylchedd ehangach a gall gael effaith sylweddol ar y bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Rhaid i ni ddarparu'r adnoddau sydd eu hangen ar bob rhan o gymdeithas i fynd i'r afael â llygredd aer ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Roedd y Papur Gwyn yn nodi amryw o gynigion deddfwriaethol ar gyfer y Bil Aer Glân. Amcan y Papur Gwyn oedd nodi pam ein bod yn credu fod angen gwella deddfwriaeth ansawdd aer a sut yr ydym yn bwriadu ei newid. Mae'n nodi sut yr ydym yn bwriadu galluogi targedau ansawdd aer uchelgeisiol, fframwaith rheoleiddio mwy cadarn i gefnogi hyn a mesurau i sicrhau bod pob rhan o gymdeithas yn cyfrannu at leihau llygredd aer.

Trosolwg o'r Ymgynghoriad

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi adborth ar bob un o gwestiynau'r ddogfen ymgynghori, a ddarparwyd gan yr ymatebion ar-lein ac ysgrifenedig, a'r safbwyntiau a ddarparwyd yn y digwyddiad ar-lein.

Ystadegau ymgynghori

Ymatebion Testun Safonol i'r ymgynghoriad:	
Ymatebion ysgrifenedig (e.e. mewn llawysgrifen, e-bost, dogfennau)	61
Ymatebion ar-lein	
Llawn	

Rhannol	12
Cyfanswm yr ymatebion ar-lein	12
Digwyddiadau ymgynghori a chyfranogwyr	
Digwyddiad ymgysylltu ar-lein (11 Mawrth 2021)	46
Cyfanswm y cyfraniadau	119

Mae rhestr lawn o'r sefydliadau ac ymatebwyr a enwir nad oeddent yn dymuno aros yn ddiennw wedi'i chynnwys yn Atodiad A.

Cyfrannodd 44 o sefydliadau ymatebion. Daeth mwyafrif y sylwadau sectoraidd oddi wrth gymdeithasau proffesiynol a masnach.

Sefydliadau a Enwir	Llywodraeth Leol	Sector preifat / CCC	Cymdeithas broffesiynol / Undeb llafur	Corff Iechyd / Cyhoeddus	Elusen	Grŵp Ymgyrchu / Lobio
43	7	4	17	6	7	2

Disgrifiwyd 12 o'r rhain fel rhai "rhannol" gan na wnaeth yr ymatebwyr hyn roi atebion llawn na manylion cyswllt.

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i bawb a roddodd o'u hamser i ymateb i'r ymgynghoriad.

Dadansoddiad o'r ymatebion

Mae pob cwestiwn yn cynnwys dadansoddiad o'r ymatebion ysgrifenedig ac ar-lein.

Y Camau Nesaf

Rhoddir amlinelliad o'r camau y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben.

Commented [SE(EEP1): Likely to be overlap in contributors...

Commented [WR(EEP2R1): Agree will change.

Commented [SE(EEP3): The table doesn't reflect this. Suggest just deleting.

Commented [WR(EEP4R3): Thanks will accept the deletion.

Cynigion y Cynllun Aer Glân

1. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i greu gofyniad yn y Bil i Gynllun neu Strategaeth Aer Glân i Gymru gael ei adolygu a'i gyhoeddi bob 5 mlynedd o leiaf? Os nad ydych chi, rhowch fanylion.

Cafwyd 48 o ymatebion. Roedd 42 yn cytuno â'r cynnig, tra bod 4 yn anghytuno a 2 ymatebydd yn rhoi barn fanwl.

Dywedodd ymatebwyr y bydd y Cynllun yn adnodd allweddol a fydd yn galluogi Llywodraeth Cymru i gofnodi a rhoi ystyriaeth lawn i ddatblygiadau a blaenoriaethau sy'n dod i'r fei. Bydd yn cofnodi camau allweddol i fynd i'r afael â llygredd aer; yn ymgorffori dealltwriaeth newydd o ansawdd aer; yn adlewyrchu materion sy'n newid a materion parhaus; yn cynnig cysondeb i'r diwydiant, yn enwedig os cynhelir ymchwil i ffynonellau allyriadau penodol er mwyn sicrhau bod allyriadau'n cael eu dosrannu'n gywir yn ôl ffynhonnell, a fydd yn helpu i dargedu deddfwriaeth yn fwy effeithiol; ac yn gwneud y gorau o gyfraniadau i'r argyfyngau hinsawdd a natur. Bydd y Cynllun yn ffordd dda o gysylltu ansawdd aer â datgarboneiddio, a gallai fod yn sail dda ar gyfer cyfleu cynnydd a hybu ymwybyddiaeth ymhlith rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn ehangach.

Cawsom amrywiaeth o awgrymiadau gan ymatebwyr, gan gynnwys:

- dylid cynnal adolygiad mwy cyffredinol gydag amserlenni priodol, nid yn unig o'r Cynllun, ond o agweddau gwahanol ar bolisi, canllawiau/strategaethau a deddfwriaeth ansawdd aer;
- dylai'r adolygiad o'r Cynllun ystyried y strategaethau a'r camau gweithredu sy'n cael eu cymryd mewn rhannau eraill o'r DU a thu hwnt. Er enghraifft, mae gan ganllawiau Sefydliad Iechyd y Byd ac argymhellion y Pwyllgor Newid Hinsawdd y potensial i effeithio ar gynllunio ansawdd aer yng Nghymru; a
- dylid rhoi ystyriaeth bellach i'r amserlen arfaethedig ar gyfer adolygu, yn enwedig o gofio bod angen craffu mwy brys a rheolaidd ar rai llygyddion

Dyfyniadau enghreifftiol

"Rydym yn cytuno â'r gofyniad hwn gan y bydd yn sicrhau y gall Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid ymateb ac addasu i sefyllfaoedd sy'n newid"

Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad yng Nghymru (CLA Cymru)

"Ydw – rwy'n credu y byddai'n synhwyrol cael gofyniad i adolygu unrhyw gynllun neu strategaeth er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n addas i'r diben ac yn cyflawni'r hyn a fwriedir."

Oliver Matthews

"Rydym ni'n cefnogi'r ymrwymiad i adolygu'r cynllun/strategaeth bob 5 mlynedd. Bydd hyn yn sicrhau ei fod yn adlewyrchu materion sy'n newid ac yn parhau, yn enwedig o ystyried cyflymder y newidiadau yn dilyn COVID 19 a'r ymgais i ddatgarboneiddio ein heconomi."

Cyfoeth Naturiol Cymru

“Mae angen datblygu ansawdd aer a rheoli carbon ochr yn ochr â'r strategaeth hon. Gall adolygu bob pum mlynedd fod yn rhy anaml o gofio bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod Sector Cyhoeddus Cymru'n garbon niwtral erbyn 2030 a Chymru'n garbon niwtral erbyn 2050.”

Cyngor Sir Ceredigion

Ymateb

Rydym yn croesawu'r gefnogaeth eang i'r cynnig hwn. Fel rhan o'r paratodau ar gyfer y Bil, byddwn wedi ystyried yr amserlenni ar gyfer adolygu'r Cynllun Aer Glân; gan gynnwys sut y gellir cysylltu'r Cynllun Aer Glân â strategaethau a pholisïau cysylltiedig fel sŵn. Roedd Deddf Amgylchedd y DU 2021 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adolygu ei strategaeth ansawdd aer bob 5 mlynedd. Mae hyn yn rhoi sail statudol i adolygu Cynllun Aer Glân bob 5 mlynedd. Rydym yn cynnig creu mecanwaith i ddiwygio'r cylch adolygu, er mwyn sicrhau y bydd yn parhau i ddigwydd ar bwynt synhwyrol yng nghylch etholiadol y Senedd.

2. Ydych chi'n cytuno â'r amserlenni arfaethedig ar gyfer adolygu'r Cynllun neu'r Strategaeth Aer Glân? Os nad ydych chi, rhowch fanylion.

O'r ymatebwyr, roedd 33 yn cytuno; 7 yn anghytuno; ac fe wnaeth 2 roi barn. Roedd y mwyafrif yn cefnogi'r cynnig. Roedd rhai ymatebwyr yn credu:

- y dylai'r Cynllun bennu cyfnodau adolygu ymhellach yn y dyfodol (o leiaf 15-20 mlynedd) neu newid amserlenni adolygu yn ôl yr angen.
- y dylid ymgorffori gofynion adrodd (fel y rhai sy'n ymwneud ag Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer a'r Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol) o fewn yr adolygiad 5 mlynedd o'r Cynllun.
- y dylai trefniadau adolygu gyd-fynd â Strategaeth Ansawdd Aer y DU, gan gynnwys strategaethau eraill megis polisi defnydd tir neu ddatgarboneiddio.

Roedd un ymatebydd o blaid ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid fel rhan o unrhyw adolygiad, gan gynnwys proses benodol ar gyfer monitro, lliniaru ac adolygu.

Dyfyniadau dangosol:

"Ni all amserlenni fod yn gaeth a therfynol. Fel y gwelwyd gyda COVID, mae angen proses o fonitro, lliniaru ac adolygu a allai effeithio ar amserlenni arfaethedig"

Cyngor Dinas Casnewydd

"Rydyn ni'n cytuno â'r amserlenni arfaethedig sy'n cyd-fynd ag amserlen yr adolygiad ar gyfer yr adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaR) a gynhyrchir bob 5 mlynedd gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Bydd yr adroddiad SoNaR yn ddam hanfodol o dystiolaeth i lywio'r gwaith o adolygu'r Cynllun Aer Glân."

Cyfoeth Naturiol Cymru

"Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru yn cefnogi'n gryf y cynnig i adolygu a chyhoeddi Cynllun neu Strategaeth Aer Glân Cymru o leiaf bob pum mlynedd, er y byddem yn annog rhai elfennau (fel lefelau nitrogen ac amonia) yn elwa ar graffu mwy rheolaidd, yn enwedig yn rhyngor cyntaf y cynllun. Gall cyfathrebu cynnydd fod yn arf allweddol ar gyfer codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth hefyd."

Cyswllt Amgylchedd Cymru

"Byddem yn awgrymu hefyd nad yw'r Strategaeth yn cael ei hadolygu ar ei phen ei hun, ond bod dull systemau'n cael ei ddefnyddio lle caiff ei adolygu yng nghydestun ac ar y cyd â thargedau strategol eraill fel datgarboneiddio, lleihau tlodi tanwydd, dewis defnyddwyr ac ati."

Stove Industry Alliance

Ymateb

Rydym wedi ystyried pwnc y cyfnodau adolygu, gan gynnwys sut i gysylltu adolygu'r Cynllun ag adolygiadau o bolisiâu a strategaethau cysylltiedig. Rydyn ni'n hynod ymwybodol o'n hymrwymiad i ddatblygu polisi ansawdd aer a sŵn mewn modd integredig. Mae cylch adolygu 5 mlynedd statudol eisoes ar gyfer cynlluniau gweithredu sŵn yng Nghymru.

Rydym wedi ystyried rhinweddau cysylltu cyfnod adolygu statudol y Cynllun â chylch etholiadol y Senedd hefyd, yn dilyn y patrwm a bennwyd gan ddeddfau Cymreig eraill megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd (Cymru). Gallai cysylltu'r Cynllun ag amseriad etholiadau sicrhau bod ymrwymadau pob Cynllun yn adlewyrchu blaenoriaethau polisi'r weinyddiaeth a fydd yn eu gweithredu, yn hytrach na rhai'r weinyddiaeth flaenorol, gan gynnwys amcanion llesiant a Pholisi Adnoddau Naturiol y weinyddiaeth honno. Mae'r cylch adolygu cyfredol a bennwyd gan Ddeddf Amgylchedd 2021 yn rhoi dyddiad adolygu'r strategaeth ansawdd aer tua 2 flynedd ar ôl etholiad y Senedd. Mae hyn yn caniatáu i ni ystyried y Rhaglen Lywodraethu, SoNaRR (Cyfoeth Naturiol Cymru / Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) ar gyfer Cymru 2020), Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol ([Tueddiadau'r Dyfodol: 2021 | LLYW.CYMRU](#)) ac ati. Rydym yn cynnig creu mecanwaith i ddiwygio'r cylch adolygu, er mwyn sicrhau y bydd yn parhau i ddigwydd ar bwynt synhwyrol yng nghylch etholiadol y Senedd.

Commented [SP5]: In Full - Can we add some links to some of the policies we are referencing

Commented [MP6R5]: Done.

Fframwaith gosod targedau

3. Ydych chi'n cytuno y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno fframwaith i osod targedau ansawdd aer newydd?

Ymatebodd 50 i'r cwestiwn hwn. [Roedd 42 yn cytuno, 6 yn anghytuno ac fe wnaeth 2 fynegi barn.](#)

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn cytuno y dylid cyflwyno fframwaith i bennu targedau ansawdd aer newydd. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr am weld:

- targedau ansawdd aer penodol wedi'u cynnwys yn y fframwaith.
- targedau ansawdd aer newydd ar gyfer llygryddion mawr yn ogystal â PM_{2.5}, megis amonia;
- targedau ansawdd aer newydd i ystyried crynodiadau sy'n diogelu iechyd pobl, gan ei gwneud yn ofynnol i ystyried canllawiau Sefydliad Iechyd y Byd.
- targedau ansawdd aer i fod yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn gyraeddadwy.

Dyfyniadau enghreifftiol

"Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn croesawu cyflwyno fframwaith gosod targedau a fyddai'n adolygu ac yn adrodd yn erbyn targedau ansawdd aer sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Bydd dull gweithredu o'r fath yn canolbwyntio ymdrechion i wella ansawdd aer yr amgylchedd yn barhaus."

Cyfoeth Naturiol Cymru

"Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru yn cefnogi'r cynnig i gyflwyno fframwaith i sicrhau targedau ansawdd aer newydd. Rydym yn cefnogi'r bwriad i ragori ar dargedau'r UE hefyd ac i fodloni neu ragori ar ganllawiau cryfach Sefydliad Iechyd y Byd (diwygiad disgwylidig 2021). Fodd bynnag, gellid cryfhau'r cynnig o ran gweledigaeth ac ymrwymiad drwy sicrhau bod targedau ar gyfer lleihau llygryddion mawr yn gyfreithiol rwymol. Mae hyn yn cynnwys ocsidiau nitrogen, ac yn fwy penodol, amonia (NH₃)."

Cyswllt Amgylchedd Cymru

"Dylai'r fframwaith gosod targedau geisio gwella'r terfynau cyfreithiol bob amser i leihau lefelau cyffredinol ansawdd aer yr amgylchedd. Byddem yn disgwyl i'r ddeddfwriaeth, os nad yn cynnwys targedau penodol ar wyneb y Bil, gynnwys maen prawf clir ar gyfer pennu targedau. Er enghraifft, ni ddylent fod yn wannach na'r lefel sy'n cael ei hargymell gan Sefydliad Iechyd y Byd, dylent fod yn gyson â'r nodau llesiant a dylent wneud y cyfraniad mwyaf posibl tuag at dargedau datgarboneiddio Cymru."

Awyr Iach Cymru

Ymateb

Roedd consensws o blaid y cynnig i gyflwyno fframwaith gosod targedau ansawdd aer, gyda gofyniad ar i Weinidogion Cymru osod targedau llygryddion aer mewn is-ddeddfwriaeth drwy reoliadau.

Commented [SE(EEP7)]: Not 50...

Commented [WR(EEP8R7)]: Graeme has checked the responses. Have amended accordingly.

Nodwn y byddai rhai ymatebwyr yn hoffi i dargedau penodol gael eu diffinio yn y fframwaith. Byddwn yn cael cyngor annibynnol ac arbenigol ar unrhyw ddull a ddefnyddir i bennu targedau newydd. Wrth osod targedau newydd ar gyfer ansawdd aer yng Nghymru, rydym am sicrhau canlyniadau buddiol a pharhaus i bawb ar draws sectorau, gan osgoi canlyniadau anfwriadol. Wrth i ni ddatblygu targedau newydd, byddwn yn ystyried effeithiau iechyd ac amgylcheddol, y technolegau sydd ar gael, ymddygiad dynol, dichonoldeb economaidd-gymdeithasol a ffactorau eraill.

Mae datblygu targedau ansawdd aer newydd ac uchelgeisiol yn broses gymhleth, ac rydyn ni'n cymryd camau i sicrhau eu bod yn gyraeddadwy ac yn effeithiol.

Nid ydym yn bwriadu cynnwys targedau ansawdd aer penodol mewn deddfwriaeth sylfaenol gan fod tystiolaeth ansawdd aer yn esblygu'n gyson. Rydym am allu bod drwy is-ddeddfwriaeth yn fwy ymatebol i amgylchiadau penodol yng Nghymru, nawr ac yn y dyfodol. Bydd y fframwaith arfaethedig yn sicrhau bod gennym hyblygrwydd i weithredu pan fo angen er mwyn sicrhau'r canlyniadau mwyaf effeithiol a pharhaus i'n cymunedau a'n hamgylchedd yma yng Nghymru.

Rydym yn bwriadu blaenoriaethu targed ansawdd aer newydd ar gyfer PM_{2.5} gan mai dyma'r llygrydd sy'n cael yr effaith fwyaf ar iechyd y cyhoedd. Gan ystyried pob barn, ac fel a ddisgrifir yn yr ymgynghoriad, rydym hefyd yn datblygu tystiolaeth i'n helpu i ystyried cynigion ar gyfer targedau ansawdd aer ar gyfer llygryddion aer eraill, megis amonia a nitrogen deuocsid, a'r angen amdanynt, i ddiogelu iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd.

4. Ydych chi'n cytuno â'r fframwaith arfaethedig ar gyfer pennu targedau ansawdd aer? Os nad ydych chi, rhowch dystiolaeth i gefnogi eich ateb, os yw ar gael.

Ymatebodd 46 i'r cwestiwn hwn. Roedd 39 yn cytuno, 6 yn anghytuno ac fe wnaeth 1 ddarparu barn.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn cytuno â'r fframwaith arfaethedig. Cwestiynwyd yr amserlen ar gyfer gweithredu deddfwriaeth targedau ansawdd aer newydd gan sawl ymatebydd. Roedd un ymatebydd o'r farn ei bod yn bwysig bod y rhai â dyletswydd i gydymffurfio â thargedau ansawdd aer yn cael eu dwyn i gyfrif.

Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at yr angen i reoliadau ansawdd aer newydd gynnwys targedau ansawdd aer statudol penodol ar gyfer llygryddion niferus.

Pwysleisiodd sawl un bwysigrwydd cyngor annibynnol ac arbenigol diduedd a chytbwys wrth osod targedau ansawdd aer.

Dyfyniadau enghreifftiol

"Rydym yn cytuno â'r fframwaith pennu targedau ansawdd arfaethedig ac yn croesawu sefydlu panel annibynnol o arbenigwyr (y Panel Cyngori ar Aer Glân) i roi cyngor ac argymhellion ar y broses o bennu targedau, a blaenoriaethu targedau llygryddion aer penodol, a fydd yn helpu i wella iechyd hirdymor plant a phobl ifanc yng Nghymru yn y dyfodol."

Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant

"Mae'r papur gwyn yn awgrymu, yn ogystal â tharged i leihau amlygiad y boblogaeth – megis crynodiad cymedrig wedi'i bwysoli ar sail y boblogaeth (PWMC) – ei bod yn bosibl cyflwyno gwerth terfyn yn seiliedig ar ganllaw Sefydliad Iechyd y Byd yn y dyfodol ar gyfer PM2.5. Fodd bynnag, bydd angen i Lywodraeth Cymru ystyried amrywiaeth o ffactorau eraill wrth bennu targedau, gan gynnwys yr angen am ddadansoddiad cost a budd i asesu dichonoldeb iechyd ac economaidd-gymdeithasol cyrraedd unrhyw dargedau newydd."

Iechyd Cyhoeddus Cymru

"Byddem yn cefnogi gosod targedau mewn is-ddeddfwriaeth ac yn croesawu'r hyblygrwydd y gallai hyn ei ganiatáu. Dylai adolygiad cyson o lwyddiant mesurau ganiatáu i dargedau cyraeddadwy realistig gael eu pennu. Unwaith eto, mae data da yn sail i bob rhan o'r broses hon."

Stove Industry Alliance

Ymateb

Roedd cefnogaeth glir i ddull sylfaenol y fframwaith arfaethedig, ynghyd ag amryw o gwestiynau a sylwadau penodol rydym yn eu hystyried.

Rydym am gyflwyno targedau ansawdd aer newydd sy'n uchelgeisiol a chyflawnadwy, er mwyn ysgogi camau effeithiol i wella ansawdd aer.

Commented [HP9]: We are setting long-term targets

Rydym wedi ymrwmo i ddilyn proses sy'n seiliedig ar dystiolaeth i osod targedau heriol, sy'n diogelu iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd. Rydym yn cymryd camau i sicrhau bod unrhyw darged ansawdd aer newydd yn seiliedig ar lwybr realistig, gwyddoniaeth gadarn a dadansoddiad economaidd, gan ganolbwyntio ar sut i sicrhau'r manteision gorau posibl.

Rydym yn parhau i weithio gyda gwyddonwyr annibynnol, ymarferwyr arbenigol ac amrywiaeth o adrannau a sectorau'r Llywodraeth i lywio a chraffu ar ddatblygiad tystiolaeth sy'n cyfrannu at y cydbwysedd rhwng uchelgais ac ymarferoldeb yn y targedau a gynigir. Bydd gosod targedau newydd penodol i lygryddion mewn is-ddeddfwriaeth yn ffordd o gynnal y broses hon sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae'n rhoi cyfle i'r holl randdeiliaid a phartneriaid darparu graffu ar fanylion a lefel yr uchelgais.

Hefyd, rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod yr atebolrwydd am gydymffurfio â thargedau yn cael ei bennu yn y ffordd fwyaf priodol. Bydd ffurf benodol a natur gyfreithiol targed yn ymdrin â llygrydd penodol, i gydnabod yr ystod o ffynonellau allyriadau cysylltiedig a'r liferau sydd ar gael i'w rheoli.

Yn y tymor hir, mae targedau sy'n gyfreithiol rwymol yn sicrhau ymdrech ddi-dor i wella ansawdd aer. Yn ei dro, bydd hyn yn cefnogi gwelliant iechyd parhaus, ynghyd â chyfrannu at yr argyfyngau hinsawdd a natur. Mae hefyd yn ffocysu ymdrechion adrannau traws-Lywodraeth ac awdurdodau lleol i gymryd camau priodol i gyrraedd y targedau neu i ragori arnynt.

- Commented [SP10]:** @Herbert, Roger (CCRA - ERA - Environmental Protection) Roger, can we change this sentence a bit please. Im not sure what it is trying to do, but we dont tend to refer to the civil service in this way in doc
- Commented [SP11R10]:** @Herbert, Roger (CCRA - ERA - Environmental Protection) @Williams, Rhian (CCRA - ERA - Environmental Protection) - happy overall with this section, but I think the wording could be shortened on this one to make the next steos clearer
- Commented [HP12R10]:** Reworded and shortened slightly. It highlights the benefits of long-term targets from different perspectives.
- Commented [SP13R10]:** @Herbert, Roger (CCRA - ERA - Environmental Protection) thanks

Fframwaith Rheoli Ansawdd yr Aer yn Lleol (LAQM)

5. Ydych chi'n cytuno bod angen egluro a chryfhau deddfwriaeth? Os felly, ydych chi'n cytuno â'r dull a amlinellwyd?

Cafwyd 45 o ymatebion. O'r rhain, roedd 40 yn cytuno â'r cynnig, roedd 3 yn anghytuno. ac fe wnaeth 2 roi barn.

Roedd yr ymatebwyr yn gyffredinol yn cytuno bod angen cryfhau'r deddfwriaeth ac i LAQM fod yn fwy ataliol a chanolbwyntio ar iechyd. Cynigiodd rhai ymatebwyr syniadau ar gyfer newid Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer (AQMs). Roedd yr awgrymiadau hynny'n cynnwys dileu AQMs a chreu Pharthau Allyriadau Isel yn eu lle a chreu AQMs ecolegol i fynd i'r afael â llygredd amaethyddol.

Argymhellwyd mwy o integreiddio rhwng LAQM, Datganiadau Ardal CNC, y drefn gydsynio amgylcheddol a pholisïau perthnasol eraill Llywodraeth Cymru. Galwyd hefyd am gydlyn terfynau lleol a'r terfynau yng nghyfraith yr UE a ddargedwir.

Roedd llawer o'r ymatebion yn argymhell y byddai angen mwy o gefnogaeth ac adnoddau (gan gynnwys cyllid a staff) i awdurdodau lleol allu rhoi'r cynigion ar waith.

Dyfyniadau enghreifftiol

"Rydym yn cefnogi'r angen i egluro a chryfhau deddfwriaeth ar yr amod bod adnoddau ychwanegol ar gael i gyflawni'r cwmpas gofynnol."

Cyngor Dinas Casnewydd

"Bydd y gallu i glywed pryderon trigolion lleol drwy drefn fonitro a gwerthuso fwy hyblyg, a adolygir yn flynyddol, yn caniatáu i broblemau gael eu nodi a'u datrys cyn iddynt ddatblygu'n fgythiad difrifol i iechyd, a chyn cyrraedd lefelau peryglus. Gallai dull gweithredu o'r fath helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd a gwneud ein strydoedd yn llefydd iachach i dreulio amser ynddynt, ond bydd angen buddsoddiad priodol i wneud hyn a gofynnwn i awdurdodau lleol wneud y broses hon yn un effeithiol a chynhwysol"

Living Streets Cymru

Ymateb

Rydym yn croesawu'r ymatebion cadarnhaol i'r cynigion ar LAQM. Mae'r cynigion hyn yn ceisio creu fframwaith deddfwriaethol sy'n canolbwyntio fwy ar atal ac yn cefnogi ac yn adeiladu ar y gwaith sydd eisoes ar y gweill gan awdurdodau lleol i wella ansawdd aer ledled Cymru.

Rydym yn nodi'r ymateb cadarnhaol i sicrhau bod LAQM yn canolbwyntio ar ddiogelu iechyd y cyhoedd. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o gyflymder y dirywiad mewn bioamrywiaeth sy'n cael ei achosi gan y wasgfa ar yr amgylchedd, Felly, byddwn yn ystyried hefyd a all LAQM warchod ecosystemau'n well fel rhan o'n hymateb i'r argyfwng natur. Byddwn yn ystyried yr holl argymhellion a wnaed yn yr ymatebion wrth i ni barhau i ddatblygu darpariaethau LAQM a diweddarau canllawiau polisi sy'n cefnogi LAQM.

Mae'r angen am fwy o adnoddau i awdurdodau lleol yn bwynt sydd wedi codi'n aml yn yr ymatebion ac mae'r gwaith yn mynd rhagddo i fapio a chyflwyno mecanweithiau cymorth newydd.

Yn y flwyddyn ariannol 2021-2022, lanswyd Cronfa Gymorth Peilot Rheoli Ansawdd Aer Lleol a gwahoddwyd ceisiadau gan Awdurdodau Lleol gyda'r nod o

- i) atal llygredd aer rhag gwaethgu;
- ii) lleihau'r gormodedd presennol o amcanion;
- iii) a/neu defnyddio technegau neu dechnolegau arloesol i wella ansawdd aer.

Cafodd ail rownd o'r cynllun ei chynnal yn y flwyddyn ariannol 22-23.

Mae canlyniadau'r cynllun hwn yn cael eu hadolygu a bydd hynny'n ein helpu i ystyried cyllid a chefnogaeth. Byddwn ni'n gweithio'n agos gydag Awdurdodau Lleol i ystyried yr ystod lawn o adnoddau a chymorth sydd eu hangen.

6. Ydych chi'n meddwl y bydd dyddiad cydymffurfio y cytunir arno gan y naill barti a'r llall fesul achos yn helpu i gyflawni gwelliannau ansawdd aer mewn Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer, cyn gynted ag y bo modd? Rhowch fanylion.

O'r ymatebion a gafwyd, roedd 24 o ymatebwyr yn cytuno ac roedd 1 yn anghytuno, tra bod 4 yn rhoi barn bellach.

Roedd y mwyafrif a ymatebodd yn cefnogi'r cynnig. Roedd llawer yn croesawu'r ffocws ar iechyd cyhoeddus ac yn teimlo y byddai'r cynnig yn sbardun i weithredu i fynd i'r afael ag AQMAs.

Codwyd sawl sylw a mater adeiladol gan yr ymatebwyr gan gynnwys:

- Gall effeithiau ymyriadau fod yn anodd eu rhagweld i ddechrau a gall hynny effeithio ar yr atebion a ddewisir.
- Dylid adolygu dyddiadau cydymffurfio'n aml a chreu mecanwaith datrys anghydfodau rhag ofn na ellir cytuno ar ddyddiadau cydymffurfio.
- Mae risg y gallai hyn roi disgwiliadau annheg ar awdurdodau lleol gan nad yw cydymffurfio â nhw o reidrydd yn gyfrifoldeb arnynt, gan ddibynnu ar darddiad y llygredd.
- Dylid ystyried pa gymhellion neu gosbau fydd yn cael eu rhoi ar Awdurdodau Lleol i'w cymell i wella ansawdd aer.
- Mae'n fuddiol yn aml gadael i gyfnodau estynedig fynd heibio cyn penderfynu a fu cydymffurfio cyson.
- Mae angen ffordd gyson o weithio ledled Cymru sy'n caniatáu hyblygrwydd mewnol ac sy'n cydnabod llygredd aer trawsffiniol a materion lleol.
- Er mwyn gallu pennu dyddiadau cydymffurfio at y dyfodol, bydd angen mecanweithiau adnoddau a chydweithio newydd.

Dyfyniadau enghreifftiol

"Byddem yn cytuno bod y dull yn fwy rhagweithiol ac ataliol ar y cyfan o ran mynd i'r afael ag Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer a LAQMs er ein bod yn nodi bod rhai meysydd y mae angen eu cryfhau neu eu hesbonio ymhellach."

Cadwch Gymru'n Daclus

“Ie, bydd hyn yn caniatáu hyblygrwydd ac yn sicrhau mwy o gydweithio i gyflawni'r nodau a'r amcanion.”

Cymdeithas Cyngorau Lleol y Gogledd a'r Canolbarth

“Gan gymryd bod yr holl adnoddau a chydweithio sydd eu hangen yn digwydd, gallai dyddiadau cydymffurfio y cytunwn arnynt gyda'n gilydd arwain at welliannau go iawn.”

Cangen Cymru y Sefydliad Acwsteg

“ Gellir profi ansawdd aer gwael ar lefel leol, lle mae pobl yn byw, ond mae'n broblem genedlaethol sy'n gofyn am atebion polisi cenedlaethol hefyd.”

Awyr Iach Cymru

“Ni all amserlenni fod yn gaeth a therfynol. Fel y gwelwyd gyda COVID, mae angen proses o fonitro, lliniaru ac adolygu a allai effeithio ar amserlenni arfaethedig. ”

Cyngor Dinas Casnewydd

Ymateb

Roedd yr ymateb cyffredinol i'r cynnig hwn yn gadarnhaol a byddwn yn ystyried y materion a godwyd wrth i ni ddatblygu'r darpariaethau cyfreithiol.

Rydym yn cydnabod nad oes gan awdurdodau lleol y modd bob tro i gymryd y camau gofynnol. Dyma pam y gwnaethom gynnig adeiladu mwy o gydweithio i'r broses AQMA. Amcan cytuno ar ddyddiadau cydymffurfio ymlaen llaw â Gweinidogion Cymru yw creu dull mwy cydgysylltiedig rhwng lefelau'r llywodraeth a rhoi mwy o gymorth i Awdurdodau Lleol. Fel yr amlinellir yn yr ymateb i gwestiwn 5, byddwn yn parhau i weithio gydag Awdurdodau Lleol i ddeall y lefel o adnoddau sydd ei angen i roi'r cynigion deddfwriaethol ar waith yn llwyddiannus.

Rydym yn nodi bod angen cydbwysedd rhwng sicrhau'r hyblygrwydd i allu delio â'r ansicrwydd wrth ragweld dyddiadau cydymffurfio a sicrhau bod cynlluniau effeithiol yn cael eu datblygu fydd yn cyfyngu ar hyd lefelau llygredd uchel yn effeithiol. Byddwn yn ystyried opsiynau gyda rhanddeiliaid i daro ar y cydbwysedd cywir ac yn asesu opsiynau ar gyfer mecanwaith datrys anghydfodau.

7. Sut y gallwn sicrhau bod y cysyniad 'partneriaid' yn gwella ac yn cefnogi cydweithio i wella ansawdd aer?

Derbyniwyd 32 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

Roedd yr ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig yn fras, gan dynnu sylw at y ffaith y byddai'n annog cydweithio ac y gallai gefnogi Awdurdodau Lleol nad ydynt yn meddu ar yr holl gyfryngau sydd eu hangen i wella ansawdd yr aer. Dywedodd rhai ymatebwyr bod angen arweiniad arnynt ac argymhellwyd mabwysiadu trefn ranbarthol i rannu adnoddau ac arbenigedd. Argymhellwyd bod Cyngorau Cymuned a sefydliadau'r trydydd sector yn cael eu cynnwys fel partneriaid o ystyried y llwyddiannau y gellir eu cyflawni ar lefel cymuned.

Fodd bynnag, codwyd rhai anawsterau. Holwyd a fyddai'r cynnig yn cefnogi partneriaeth drawsffiniol gydag Awdurdodau Lleol yn Lloegr a hwythau ddim yn dod o dan y ddeddfwriaeth hon. Codwyd problem adnoddau gan nifer o'r ymatebwyr a oedd yn teimlo y gallai rheoli a chydlynu gwaith partneriaeth fod yn drwm iawn ar adnoddau. Awgrymwyd ambell ddull arall, gan gynnwys gweithredu 'haenog', dyletswydd aer glân ar bob corff cyhoeddus a system lle byddai Llywodraeth Cymru'n enwi partneriaid a chysylltiadau wedi'u cydlynu i symleiddio'r broses.

Dywedodd ymatebwyr fod angen eglurder o ran pwy fydd y partneriaid a sut y byddant yn rhan o'r broses bartneriaid, yn enwedig o gofio y gallai'r ystod o bartneriaid fod yn wahanol mewn rhannau gwahanol o Gymru. Argymhellwyd hefyd y dylai mecanwaith datrys anghydfodau gael ei defnyddio i ddatrys materion ynghylch pwy ddylai, neu na ddylai, fod yn bartner.

Dyfyniadau enghreifftiol

"Mae'r cysyniad 'partneriaid' yn ddull newydd a chyffrous o ddatblygu LAQM a'r agenda ansawdd aer yn fwy cyffredinol. Mae'n bosibl y bydd yn rhoi gallu ychwanegol i sicrhau ymgysylltiad adeiladol gan randdeiliaid perthnasol ac yn gweithredu fel arfer gorau o ran mynd i'r afael â natur LAQM, sy'n gymhleth yn aml."
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

"Nid yw cyfran sylweddol o weithgarwch cydweithredol wedi'i gynnwys mewn disgrifiadau swydd ac mae swydd bob dydd gan y rhai sydd ynghlwm wrth y gweithgarwch, felly ar hyn o bryd, mae cydweithredu'n weithred wirfoddol i lawer sydd â diddordeb. Gall deddfu ar gyfer hyn olygu dull gweithredu gwahanol, ac mae angen gofal wrth ddeddfu i gynnwys y sectorau preifat a gwirfoddol pan nad yw'n ddyletswydd arnynt ac nad ydynt yn cael eu digolledu am eu hamser a'u hymrwymiad o ran adnoddau".

Cangen Cymru y Sefydliad Acwsteg

Ymateb

Ar ôl ystyried yr adborth oddi wrth ymatebwyr a phwyso a mesur yr opsiynau, rydym wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen â hwn fel cynnig deddfwriaethol.

Byddwn ni'n mynd â'r egwyddorion allweddol sydd wedi'u nodi yn y cynnig yn eu blaen i ddiwallu'r angen am drefn fwy cynhwysol a chydweithredol sy'n cefnogi Awdurdodau Lleol.

Byddwn ni'n gweithio gydag Awdurdodau Lleol i ddatblygu mecanweithiau cydweithredol a fydd yn rhan allweddol o'r canllawiau polisi newydd. Byddwn ni'n ystyried goblygiadau cydweithio o ran adnoddau fel rhan o'r gwaith hwn.

Rydym yn cytuno â'r ymatebwyr bod dull rhanbarthol yn bwysig ar gyfer rheoli ansawdd yr aer er mwyn sicrhau bod effeithiau posibl ar awdurdodau cyfagos yn cael eu hasesu'n llawn. Mae'r Cyd-bwyllgorau Corfforaethol a'r cynlluniau trafndiaeth rhanbarthol a nodir yn Llwybr Newydd yn darparu mecanwaith newydd a defnyddiol i sicrhau bod ansawdd aer yn cael ei ystyried fesul rhanbarth.

8. A fydd y cynigion hyn gyda'i gilydd yn helpu i ddarparu cyfundrefn LAQM fwy rhagweithiol ac sy'n canolbwyntio mwy ar atal?

O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd 22 o ymatebwyr yn cytuno, 2 yn anghytuno a mynegodd 5 farn bellach.

Cytunodd mwyafrif yr ymatebwyr y byddai'r cynigion yn helpu i ddarparu trefn LAQM well er iddynt ofyn am ragor o fanylion ac eglurhad pellach ynghylch sut y byddai'r cynigion yn gweithio'n ymarferol.

Tynnodd llawer o'r ymatebwyr sylw at y ffaith na fyddai'r cynigion yn effeithiol heb adnoddau digonol. Awgrymodd un ymatebydd y dylid creu Banc Aer Glân a allai cydfynd â phrosiectau gwella ansawdd aer a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Teimlwyd hefyd bod angen monitro ansawdd aer yn well er mwyn casglu tystiolaeth well ac y dylai monitro sŵn ddigwydd ochr yn ochr â monitro ansawdd aer.

Codwyd mater ymgysylltu hefyd. Teimlwyd y dylai fod yn haws cael gafael ar ddata ansawdd aer a bod angen proses go iawn o ymgysylltu er mwyn cynnwys yr holl gymunedau wrth reoli ansawdd aer yn lleol.

Roedd y rhai oedd yn anghytuno â'r cynigion yn teimlo y gallent fod yn anodd eu gorfodi ac er mwyn iddynt fod effeithiol, rhaid wrth AQMAs ecolegol.

Dyfyniadau enghreifftiol

“Credwn fod potensial gan y cynigion hyn i ddarparu cyfundrefn LAQM fwy rhagweithiol.”

Cyfoeth Naturiol Cymru

“Gan ei bod yn hysbys bod cysylltiad agos iawn rhwng ansawdd aer a sŵn, a bod yn rhaid i waith cynllunio gweithredu ystyried y naill a'r llall, byddai'n gwneud synnwyr i fanteisio ar y cyfle hwn i ganfod pa welliant i seinwedd sy'n deillio o waith ansawdd aer”.

Cangen Cymru y Sefydliad Acwsteg

“Byddai'r cynigion yn awgrymu y gallai dull mwy rhagweithiol fod yn ganlyniad, gan obeithio y bydd arferion da yn datblygu'n gyflym. Byddem yn annog canllawiau clir ar gyfer camau gweithredu, yn seiliedig ar ddata da sy'n cwmpasu pob ffynhonnell bosibl o allyriadau ac sy'n gallu dosrannu ffynonellau'n gywir. Bydd cysondeb o ran dull gweithredu yn ennyn gwell cefnogaeth o lawer gan randdeiliaid, gan arwain at welliannau gwell a chyflymach o ran ansawdd aer.”

Stove Industry Alliance

Ymateb

Rydym am ddefnyddio'r cyfle hwn o newid deddfwriaethol i greu trefn LAQM mwy rhagweithiol, ataliol a chydweithredol. Rydym yn croesawu'r adborth sy'n gadarnhaol yn bennaf gan rhanddeiliaid i'r cynigion hyn a byddwn yn ystyried yr holl bwyntiau a godwyd yn yr ymatebion wrth i ni ddatblygu'r darpariaethau deddfwriaethol a diweddarau'r canllawiau polisi ategol.

Byddwn ni'n parhau i weithio gydag Awdurdodau Lleol a rhanddeiliaid eraill drwy gydol y broses hon i sicrhau bod y newidiadau deddfwriaethol i'r LAQM yn briodol, yn gadarn ac yn orfodadwy gyda digon o adnoddau.

Codi Tâl ar Ddefnyddwyr Ffyrdd

9. Ydych chi'n meddwl y byddai'r cynigion yn cefnogi cyflwyno Parthau Aer Glân / Parthau Allyriadau Isel yng Nghymru yn effeithlon ac yn effeithiol?

Roedd 18 o ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig. Roedd 1 ymatebydd yn anghytuno a rhoddodd 13 farn bellach. Codwyd rhai materion pwysig i'w hystyried mewn perthynas â chynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd.

Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau a roddwyd yn cefnogi'r cynigion. Roeddent yn teimlo y byddai'r ddarpariaeth, ar y cyfan, yn darparu strwythur ar gyfer gwella llygredd aer. Fodd bynnag, roedd llawer yn cytuno mai gwneud y mecanwaith hwn mor syml â phosibl fyddai'r dull gorau.

O ystyried mai prif ddiben unrhyw gynllun codi tâl fyddai hyrwyddo newid ymddygiad, a symud at opsiynau teithio sy'n llygru llai, roedd yn nodedig bod nifer o ymatebwyr yn cyfeirio'n benodol at effeithiau iechyd. Er enghraifft, o ran y potensial i symud cerbydau sy'n llygru i ffyrdd eraill, gan waethygu ansawdd aer (gan gynnwys allyriadau carbon) mewn mannau eraill, o bosibl dros ardal ehangach lle mae llwybrau dargyfeiriol yn hirach.

Mynegwyd yr angen hanfodol am ddulliau trafndiaeth amgen cynaliadwy mewn nifer o ymatebion. Gall hyn fod yn broblem benodol i rai ardaloedd (gwledig, er enghraifft), ac i rai grwpiau (fel gweithwyr shifft).

Roedd nifer o sylwadau'n canolbwyntio ar y mecanweithiau/seilwaith sydd eu hangen i weithredu cynlluniau codi tâl, a chostau hynny. Awgrymwyd y byddai dulliau cyson o weithio ledled Cymru a rhannau eraill o'r DU, er enghraifft ar safonau allyriadau a systemau talu, yn ei gwneud hi'n haws i fodurwyr gydymffurfio.

Mynegwyd safbwyntiau gwahanol ar yr angen am seilwaith trafndiaeth. Roedd rhai'n teimlo bod seilwaith digonol eisoes mewn ardaloedd trefol i ddarparu atebion amgen i'r rhai sy'n byw ac yn gweithio mewn dinasoedd a threfi. Roedd pobl eraill yn teimlo bod mwy i'w wneud o hyd ar lwybrau teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus i roi dewisiadau amgen i gerbydau preifat. Yn fras, teimlwyd bod angen gweithio gyda chymunedau a sefydliadau i sicrhau'r ateb gorau mewn ardal benodol. Dylid gwneud hyn law yn llaw â gwelliannau ledled y wlad, gan gynnwys ardaloedd gwledig, i ategu'r newid ymhellach.

Mynegodd llawer o ymatebwyr bryderon am y problemau penodol a allai godi mewn cymunedau a busnesau gwledig lle mae llai o ddewisiadau trafndiaeth amgen, a lle mae cerbydau gwaith yn tueddu i lygru mwy.

Codwyd mater tegwch gan sawl ymatebydd, a oedd am sicrhau proses bontio deg a chyfiawn. Tynnwyd sylw at y ffaith mai'r rhai mwyaf difreintiedig yn ein cymunedau sy'n cael eu heffeithio fwyaf yn aml, a bod angen amddiffyniadau ar gyfer y grwpiau hyn. Roedd yr atebion a awgrymwyd yn cynnwys sicrhau dewisiadau trafndiaeth digonol, fforddiadwy a chynaliadwy. Nododd llawer fod angen dewisiadau amgen

addas cyn cyflwyno cynlluniau codi tâl, a chymhellion i ddefnyddio mathau eraill o drafndiaeth.

Teimlwyd y dylai'r tâl gael ei ddefnyddio fel ffordd o godi ymwybyddiaeth a dylid ei neilltuo ar gyfer hyrwyddo teithio lleol a/neu welliannau amgylcheddol sy'n lleihau llygredd aer. Roedd peth o'r adborth yn awgrymu bod angen bod yn hollol dryloyw ynghylch codi tâl a beth mae'r arian yn ei brynu.

Hoffai ymatebwyr weld digon o rybudd i breswylwyr, busnesau a gweithwyr a allai gael eu heffeithio gan daliadau cyn cyflwyno unrhyw gynllun.

Dyfyniadau enghreifftiol

"Bydd angen i ddatblygiad parthau o'r fath gael ei ategu gan seilwaith trafndiaeth amgen da, fel trafndiaeth gyhoeddus integredig a llwybrau beicio diogel. Byddai angen i seilwaith trafndiaeth amgen o'r fath fod ar waith cyn sefydlu'r Parthau Aer Glân / Parthau Allyriadau IseI er mwyn osgoi anfantais anghymesur i rai sectorau o'r gymdeithas."

Cyfoeth Naturiol Cymru

"Rydym yn croesawu'r cynigion i gefnogi cyflwyno Parthau Aer Glân / Parthau Allyriadau IseI yng Nghymru yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae'r Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant yn cefnogi'r syniad o ehangu'r seilwaith i gefnogi teithio llesol, teithio ar drafndiaeth gyhoeddus a cherbydau trydan. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gan drigolion cymunedau gwledig ac anghysbell gysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus digonol hefyd. Rydym yn cefnogi'r syniad o roi grym i awdurdodau lleol gau neu ddargyfeirio ffyrdd pan fydd llygredd aer yn uwch na therfynau penodedig."

Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant

"Dylai'r Papur Gwyn bennu darparu adnoddau fel y gellir adolygu a chefnogi strategaethau o'r fath yn y dyfodol gyda'r cyllid a'r targedau sydd eu hangen er mwyn hyrwyddo newid dulliau teithio o geir a lleihau llygredd aer cyffredinol yn ein trefi a'n dinasoedd."

Awyr Iach Cymru

"Rydym yn cefnogi cynlluniau Llywodraeth Cymru i atgyfnerthu a diweddarau'r ddeddfwriaeth bresennol ar gynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd er mwyn gallu sefydlu fframwaith cliriach. Wrth wneud hynny, gofynnwn i fframwaith Llywodraeth Cymru fod yn gyson â rhannau eraill o'r DU, yn enwedig o ran safonau allyriadau. Mae'r Post Brenhinol yn chwarae rôl bwysig yn gwasanaethu cymunedau ledled Cymru. Ar unrhyw ddiwrnod penodol, bydd llawer o'n cerbydau'n teithio i lu o drefi a dinasoedd, gan gludo post rhwng ein rhwydwaith helaeth o swyddfeydd dosbarthu a chanolfannau dosbarthu i gwsmeriaid ledled y DU."

Y Post Brenhinol

Ymateb

Yn y Strategaeth Trafndiaeth, rydym yn cydnabod bod angen system drafndiaeth hygyrch, gynaliadwy ac effeithlon arnom. Mae hyn yn golygu un sy'n dda i bobl a chymunedau, yn dda i'r amgylchedd, yn dda i'r economi a lleoedd ac sy'n cefnogi

Commented [SP14]: @Pownall, Verity (CCRA - ERA - Environmental Protection) to note

Commented [PP15R14]: Thanks - suggest we delete this as we're not taking forward the partners proposal

Commented [SP16R14]: @Pownall, Verity (CCRA - ERA - Environmental Protection) Thanks - I agree

iaith a diwylliant Cymraeg sy'n ffynnu. Gall codi tâl teg ar ddefnyddwyr ffyrdd fod yn gyfrwng i gyflawni ein huchelgeisiau llesiant amgylcheddol.

Dylid nodi bod rhyw lefel o godi tâl eisoes yn bodoli yng Nghymru drwy'r dreth ar geir a'r dreth ar danwydd. Fodd bynnag, mae cynlluniau penodol ar gyfer codi tâl ar ddefnyddwyr ffordd yn gyfle i herio dominyddiaeth cerbydau modur ar y ffyrdd, yr allyriadau llygru cysylltiedig a helpu i ddarparu system drafnidiaeth decach a mwy cydradd.

Er na chynigir unrhyw fath o gynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr ffordd ar hyn o bryd ar rwydwaith cefnffyrdd Cymru, gallai hyn newid yn y dyfodol wrth i ni ddatblygu cynlluniau codi tâl a manteision ar gyfer cefnogi newid dulliau teithio, ac i fynd i'r afael â heriau penodol ansawdd aer.

Pwrpas y cynigion sy'n cael eu disgrifio yn yr ymgynghoriad yw sicrhau bod pwerau cyfreithiol yn bod i fedru darparu cynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd lle bo tystiolaeth y gallent ein helpu i daro'n targedau ansawdd aer, sero net a thrafnidiaeth gynaliadwy.

Rydym wedi ymrwymo i ysgwyddo ein dyletswyddau cyfreithiol ar gyfer ansawdd aer. Wrth ddatblygu mesurau yn hyn o beth, rydym am ei gwneud yn hawdd i bobl deithio heb gar er mwyn creu cymhellion i newid, ac yna edrych ar becyn cydlynol sy'n cynnwys datgymhellion.

Byddwn ni'n datblygu fframwaith ar gyfer codi tâl teg a chydradd ar ddefnyddwyr ffyrdd yng Nghymru ac yn ystyried cymhellion eraill i beidio â defnyddio ceir, gan ystyried materion cydraddoldeb gan gynnwys anghenion pobl wledig, pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig a phobl ar incwm isel. Byddai pecyn ehangach o fesurau i wella dewisiadau teithio yn cyd-fynd â hyn.

Trwy ganllawiau byddwn yn sicrhau cysondeb yn y cynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd a ffyrdd lleol, gan adeiladu ar y Fframwaith Parthau Aer Glân drafft ar gyfer Cymru a gyhoeddwyd yn 2018.

Commented [SP17]: @Procter, Eloise (CCRA - ERA - Environmental Protection) @Williams, Rhian (CCRA - ERA - Environmental Protection) - formatting issues here. Can we make Local Authority consistent in the doc - capitals at start or not. I dont mind

Commented [SP18]: @Carter, Andrew (CCRA - ERA - Environmental Protection) @Williams, Rhian (CCRA - ERA - Environmental Protection) @Procter, Eloise (CCRA - ERA - Environmental Protection) Hi Andrew - should we also state here that in the future they may be required to address air pollution.

Commented [SP19]: @Williams, Rhian (CCRA - ERA - Environmental Protection) @Carter, Andrew (CCRA - ERA - Environmental Protection) @Hockley, Ross (CCRA - ERA - Environmental Protection) are transport okay with this text. I think we will get questions around this. I would be keen to have some lines around how this will all happen, etc

Commented [CP20R19]: Yes, this is taken from WTS and NTDP.

10. Ydych chi'n credu y dylai referniw a godir drwy daliadau cefnffyrdd fod ar gael at ddibenion heblaw am gefnogi polisïau trafndiaeth (nodwch)?

Roedd o 14 o ymatebwyr yn cytuno tra bod 15 yn anghytuno. Rhoddodd 5 ymatebydd farn bellach.

Y consensws ymhlith y rhai a ymatebodd oedd y dylai unrhyw arian a gynhrychir drwy gynlluniau codi tâl gael ei ddefnyddio ar welliannau ehangach i ansawdd aer yn ogystal â pholisïau trafndiaeth.

Cafwyd llawer o awgrymiadau am y ffordd orau o ddefnyddio incwm ar gyfer seilwaith trafndiaeth mwy cynaliadwy. Ymhlith y themâu a awgrymwyd oedd cymorth i drawsnewid i drydaneiddio cerbydau domestig a chyhoeddus, gwelliannau teithio llesol a mwy o bwyntiau gwefru cerbydau trydan. Hefyd, awgrymwyd y dylai incwm ariannu gwell mynediad at wybodaeth iechyd.

Roedd galw am gymorth i fusnesau bach fel y gallent addasu eu polisïau trafndiaeth er mwyn cyfyngu ar effeithiau unrhyw daliadau. Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys sicrhau bod arian ar gael i blannu coed a mannau gwyrdd eraill yn agos at ffyrdd a/neu'n agos at dai cyfagos er mwyn helpu i leihau effeithiau llygredd.

Awgrymwyd y gellid gwario'r arian a geir wrth godi tâl i wella ansawdd aer drwy dulliau eraill megis ariannu gwaith Cynlluniau Gweithredu Ansawdd Aer.

Roedd galw am dynnu sylw at fecanweithiau codi tâl a thalu drwy ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth. Er mwyn cynyddu cefnogaeth y cyhoedd, dylai Llywodraeth Cymru adrodd ar sut mae taliadau wedi'u defnyddio.

Dadluedd nifer o ymatebwyr na ddylid codi taliadau hyd nes bod seilwaith gwell ar waith i ddarparu dewisiadau teithio glanach. Roedd angen i ddulliau teithio amgen fod yn fwy cyfleus, yn fwy diogel ac yn rhatach.

Dyfyniadau enghreifftiol

"Dylai'r referniw o gynlluniau codi tâl gael ei ddefnyddio'n unswydd ar ddatblygu seilwaith teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus yn unig, gan gynnwys capio prisiau."
Iechyd Cyhoeddus Cymru

"Gyda chafeat bod yr arian ychwanegol yn cael ei neilltuo ar gyfer gwelliannau ansawdd aer, mae Awyr Iach Cymru yn cefnogi'r mesurau i ehangu'r defnydd o referniw sy'n cael ei godi drwy daliadau cefnffyrdd. Dylid casglu'r cyllid mewn cronfa y gall Awdurdodau Lleol ymgeisio amdani er mwyn gwneud gwelliannau i seilwaith teithio llesol neu brosiectau awdurdodau lleol i hyrwyddo newid ymddygiad."
Awyr Iach Cymru

"Mae Logistics UK yn credu'n gryf y dylai unrhyw referniw sy'n cael ei godi ganolbwyntio ar gefnogi polisïau trafndiaeth lleol yn unig. Er mwyn helpu ansawdd

Commented [SP21]: @Williams, Rhian (CCRA - ERA Environmental Protection) @Carter, Andrew (CCRA - ERA Environmental Protection) could this sentence be looked at, not sure it reads right

aer lleol, gallai hyn gynnwys cynyddu'r seilwaith gwefru ac ail-lenwi tanwydd ar gyfer cerbydau tanwydd amgen, a gwella seilwaith ffyrdd lleol i helpu i leihau tagfeydd.”

Logistics UK

“Byddai hyn yn ymddangos yn ddull rhesymol gan fod modd cyflawni gwelliannau ansawdd aer drwy ddulliau heblaw polisïau trafndiaeth lleol. Un enghraifft fyddai datblygu seilwaith gwyrdd trefol.”

Cyfoeth Naturiol Cymru

Ymateb

Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r potensial i ehangu'r ystod o fesurau y gellid eu cefnogi drwy unrhyw gynllun codi tâl ar gefnffyrdd yn y dyfodol. Fodd bynnag, clywsom am bryderon ynghylch yr angen i gadw'r gofyniad i fuddsoddi mewn mesurau trafndiaeth fel y darperir ar eu cyfer ar hyn o bryd mewn deddfwriaeth. Rhannodd nifer o ymatebwyr awgrymiadau defnyddiol ar y meysydd a fyddai'n elwa ar gyllid i leihau llygredd aer. Roedd hyn yn cynnwys cymorth i fusnesau ac unigolion er mwyn helpu i leihau eu heffeithiau, teithio llesol a seilwaith trafndiaeth gyhoeddus.

Rydym yn ystyried pob awgrym ar gyfer datblygu'r darpariaethau codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd yn y Bil. Mae hynny'n cynnwys ystyried sut i sicrhau bod elw o gynlluniau codi tâl yn helpu i greu system drafnidiaeth hygyrch, gynaliadwy ac effeithlon. Sef yw hynny, un sy'n dda i bobl a chymunedau, yn dda i'r amgylchedd, yn dda i'r economi a lleoedd ac sy'n cefnogi iaith a diwylliant Cymraeg sy'n ffynnu.

Cynigion ar Gerbydau sydd â'u Hinjans yn Segura

11. Ydych chi'n cytuno â'r cynigion sy'n ymwneud â mynd i'r afael â segura llonydd (injans sy'n segura)?

Roedd 27 o ymatebwyr yn cytuno â'r cynigion a 6 yn anghytuno a chynigiodd un farn..

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynigion yn erbyn gadael i injans segura, gan y byddant yn cyfrannu at leihau allyriadau. Byddai'r cynigion yn mynd i'r afael ag achosion lle ceir cerbydau yn segura yn un lle am gyfnodau hir. Byddai hyn yn arbennig o wir pe gellid creu trefn yn y pen draw sy'n syml, yn hyblyg, yn ddewisol ac yn cael ei chynnal gan Awdurdodau Lleol gyda'u dyletswyddau gorfodi priffyrdd sifil eraill.

Ystyriwyd bod mesurau yn erbyn injans yn segura yn allweddol i ddiogelu'r rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas (er enghraifft tu allan i ysgolion ac ysbytai).

Galwodd rhai ymatebwyr am adnoddau ychwanegol, gan groesawu'r pŵer i gynyddu cosbau penodedig. Nodwyd bod wardeiniaid parcio'n cyflawni rôl orfodi eisoes ac y gallent ymgymryd â dyletswyddau o'r fath mewn perthynas ag injans sy'n segura. Mae angen pecyn ymgysylltu a newid ymddygiad i ymgysylltu â'r cyhoedd, busnesau a diwydiant.

O'r rhai a oedd yn anghytuno, ni wnaeth llawer nodi rhesymau penodol. Roedd y pryderon cyffredinol a fynegwyd yn canolbwyntio ar ffactorau fel effeithiolrwydd gorfodi o'i ddefnyddio ar ei ben ei hun a diffyg adnoddau ymhlith Awdurdodau Lleol. Mynegwyd pryderon y bydd digwyddiadau'n gwneud y cynigion hyn yn amherthnasol, fel terfynu ceir petrol, diesel a hybrid erbyn 2030; trydaneiddio'r fflyd drafnidiaeth; defnyddio hydrogen fel tanwydd; a chael gwared ar gerbydau hŷn o 2030.

Dyfyniadau enghreifftiol

"Mae angen ymchwil bellach i gadarnhau a oes budd i ansawdd aer o ran segura l yn y tymor byr, ond cytunir y byddai'r asesiad goddrychol yn gwella ansawdd aer a sŵn ar gyfer ardal a'i thrigolion. Byddai angen canllawiau i sicrhau y byddai'r mecanwaith yn cael ei weithredu'n gyson."

Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru

"Gall segura diangen gael effaith sylweddol ar ansawdd aer lleol. Credwn y bydd pwerau ychwanegol i awdurdodau lleol yn helpu i hyrwyddo'r newid ymddygiad gofynnol gan yrwyr, ond mae angen adnoddau digonol i gefnogi hyn."

Cyfoeth Naturiol Cymru

"Gall fod rôl i gamau gorfodi, yn dilyn codi ymwybyddiaeth a mesurau eraill, o ran darparu effaith ataliol i atal neu leihau llygredd aer lle mae mesurau eraill wedi methu ag atal y broblem."

TUC Cymru

“Ydyn, mae'n rhaid cael adnoddau ychwanegol ar gyfer unrhyw gyfrifoldebau newydd i Awdurdodau Lleol. Byddem yn croesawu cynnydd mewn taliadau Cosb Benodedig gan nad yw'r taliadau presennol yn ddigonol i rwystro pobl rhag gadael eu hinjans i segura ac nid ydynt ychwaith yn gwneud gorfodi'r ddeddfwriaeth yn hyfw yn ariannol.”

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Ymateb

Byddwn yn ystyried yr holl safbwyntiau a phryderon a fynegwyd gan ymatebwyr wrth ddatblygu'r gwaith hwn ymhellach. Rydym yn ystyried sut y gallai amrywiaeth o fentrau gefnogi'r cynigion hyn, gan gefnogi newid ymddygiad amgylcheddol cadarnhaol.

Gall mesurau yn erbyn injans sy'n segura fod fwyaf effeithiol pan gânt eu cynnwys mewn pecyn o fesurau ategol i sicrhau aer glanach. Felly rydym yn bwriadu cyhoeddi canllawiau sy'n mynd yn ehangach na rhwystro pobl rhag gadael i'w hinjans droi. Rydym am wneud y mwyaf o'r cyfle i hyrwyddo ystod o fesurau ar gyfer gwella ansawdd yr aer. I'r perwyl hwn, rydym am baratoi canllawiau sy'n ymgorffori'r syniad o gyd-weithredu lle mae mesurau hyn yn cael eu cynnwys mewn pecyn o fesurau a gweithredoedd (megis hyrwyddo teithio llesol) a all lleihau allyriadau, gan gynnwys sŵn, lle bo hynny'n berthnasol.

O dan ein Strategaeth Trafnidiaeth, rydym wedi nodi ein huchelgais a'n camau cysylltiedig i sicrhau fflydoedd cerbydau glanach. Fe fydd y newid hwn yn cymryd nifer o flynyddoedd felly, ein blaenoriaeth yw lleihau llygredd o drafnidiaeth ffyrdd gymaint â phosib yn y cyfamser. Cludiant ffordd yw un o brif ffynonellau nwyon tŷ gwydr a llygryddion aer sy'n gyfrifol am gyfrannu'n arwyddocaol at allyriadau carbon deuocsid, nitrogen ocsidau a deunydd gronynnol (yn enwedig PM10 a PM2.5).

Commented [GP22]: In response to Dan's question on whether fixed penalties were realistic behaviour change mechanisms, I would argue there is some evidence to say this is the case. One anti-idling field experiment sought to establish whether appeals to self-interest could persuade drivers to switch off their engines. One self-interest factor is that people want to avoid financial/pecuniary loss. The result of the experiment was that drivers were twice as likely to switch off their engines if faced with financial loss.

Commented [SP23]: @Williams, Rhian (CCRA - ERA - Environmental Protection) @McVay, Martin (CCRA - ERA - Environmental Protection) @Pownall, Verity (CCRA - ERA - Environmental Protection) @Griffiths, John Eilian (CCRA - ERA - Environmental Protection) @Hockley, Ross (CCRA - ERA - Environmental Protection) @Carter, Andrew (CCRA - ERA - Environmental Protection) I can see where this text is going, but I think we need to be a bit more specific. Why do we want the guidance to go further and what will this achieve.

I also feel there's a bit of duplication in the first 3 paras. just needs to be a bit more punchy.

Commented [GP24R23]: This is what is set out in the Clean Air Plan with the main pollutants from transport being nitrogen dioxide, PM10 and PM2.5.

Commented [SE(EEP25): There was a lot of repetition in this section so I have rationalised

Commented [SP26]: @Williams, Rhian (CCRA - ERA - Environmental Protection) @Shepard, Elen (CCRA - ERA - Environmental Protection) @Procter, Eloise (CCRA - ERA - Environmental Protection) Hi, we just need to do a quick doc check to ensure the pollutants are correctly set out.

Commented [GP27R26]: As per the Clean Air Plan.

12. Yn eich barn chi, beth yw manteision/anfanteision y cynigion?

Rhoddodd 31 o ymatebwyr farn bellach mewn perthynas â'r cwestiwn hwn. Roedd cefnogaeth gref i gynyddu'r gallu i orfodi a chynyddu'r Hysbysiadau Cosb Benodedig. Gallai'r cynigion ategu gweithgareddau gorfodi sifil priffyrdd presennol, a'u hategu gan adborth cymunedol a bod yn erfyn defnyddiol i rwystro pobl rhag gadael i'w hinjans segura mewn mannau sensitif. Fodd bynnag, mae rhai o'r farn mai anaml y mae gorfodi yn adnodd defnyddiol ynddo'i hun a'i bod yn hanfodol iddo ddigwydd ar y cyd ag addysg, ymgysylltu a chodi ymwybyddiaeth.

Roedd peth pryder y gallai'r cynigion dargedu'r rhai ar incwm isel yn annheg. Gallai hyn arwain at fwy o faich ar Awdurdodau Lleol sy'n gorfod casglu a mynd ar drywydd taliadau. Byddai'n ddoeth rhoi rhybuddion cychwynnol i fodurwyr sy'n segura i'w helpu i addasu i ymddygiad mwy cadarnhaol a dod i arfer â'r ddeddfwriaeth heb ddioddef cosbau ariannol. Barn arall oedd na fyddai cyfnodau gras yn caniatáu i'r drefn orfodi fod yn hunangyllidol/hunangynhaliol.

Mynegodd rhai'r farn y gallai'r dull lleol arfaethedig fod yn dameidiog (gyda bws ysgol sydd â'i injan yn segura yn cael ei ystyried yn fws ysgol sy'n llygru mewn un ardal Awdurdod Lleol ond nid mewn ardal arall). Byddai'n well mynd i'r afael ag injans sy'n segura gyda dull gweithredu cenedlaethol, megis ymgyrch genedlaethol yn erbyn injans sy'n segura sy'n cyd-fynd ag ymgyrchoedd eraill fel hyrwyddo teithio llesol.

Cydnabuwyd y bydd y cynigion yn cyfrannu at lwyddiant rhaglenni cysylltiedig eraill fel y rhaglen Strydoedd Ysgol (lle rhoddir cyfyngiadau dros dro ar gerbydau y tu allan i ysgolion) a'r rhaglen Eco-Sgolion.

Dyfyniadau enghreifftiol

"Y manteision yw lleihau allyriadau ond gall fod yn anodd gorfodi."

Cymdeithas Cynghorau Lleol y Gogledd a'r Canolbarth

"Ni ddylai'r mecanwaith fod yn gysylltiedig ag ardal rheoli ansawdd aer yn unig, yn hytrach dylai gael ei ddefnyddio ar sail awdurdod, Cymru gyfan gan staff gorfodi sifil. Fel y soniwyd eisoes, mae pecyn addysg a newid ymddygiad yn bwysig er mwyn sicrhau ymgysylltiad ag aelodau o'r cyhoedd a busnesau er mwyn derbyn y manteision llawn.

Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru

"Mae perygl hefyd – fel y nodwyd uchod gyda Pharthau Allyriadau Isel – y bydd y rhai sydd ar incwm isel yn cael eu targedu'n drwm gan y dull hwn gan fod cerbydau mwy newydd yn cynnwys technoleg tanio-diffodd yn aml. Yn wir, mae'r cynigion yn dweud yn benodol y byddant yn targedu cerbydau hŷn. Nid yw targedu'r rheini heb arian yn gwneud fawr ddim i hyrwyddo newid cadarnhaol mewn ymddygiad, ond gall gynyddu'r beichiau ariannol ar awdurdodau lleol hefyd yn sgil yr angen i geisio casglu taliadau."

Cadwch Gymru'n Daclus

“Fodd bynnag, mae Cadwch Gymru'n Daclus yn gefnogwr cryf o ymdrechion i annog gyrwyr i beidio â gadael i'w hinjans segura a hybu ymwybyddiaeth o'r mater, ac nid yw'n anghytuno y gallai hysbysiadau cosb benodedig chwarae rhan mewn rhai achosion, er na ellid gwneud hynny ar ei ben ei hun heb fesurau addysg ac ymgysylltu.”

Cadwch Gymru'n Daclus

Ymateb

Rydyn ni'n croesawu'r safbwyntiau amrywiol a fynegwyd gan ymatebwyr. Wrth i ni ddatblygu'r cynigion i rwystro pobl rhag gadael i'w hinjans segura, byddwn yn ystyried mentrau newid ymddygiad, ynghyd â mesurau gorfodi, gan gynnwys sut i rannu adnoddau llywodraeth leol a'u rheoli'n effeithiol o fewn cyd-destun cyfyngiadau ariannol.

Rydym yn nodi'r gefnogaeth i gynyddu cosbau sefydlog. Byddwn ni'n ceisio creu pŵer i Weinidogion Cymru i osod ystod o gosbau ariannol trwy reoliad am adael i injan segura lle byddai Awdurdod Lleol yn cael pennu pob Cosb Benodedig yn ôl y sefyllfa unigol. Byddai Awdurdodau Lleol yn cael dewis gosod cosb uwch lle bydd amgylchiadau'n cyfiawnhau hynny. Er enghraifft, lle effeithir ar y mwyaf bregus yn ein cymdeithas (plant a phobl ifanc mewn ysgolion; lleoliadau gofal iechyd (ysbytai neu glinigau; pobl mewn cartrefi gofal preswyl) neu rhywun sy'n euog o droseddu fwy nag unwaith

Hefyd, byddwn yn ystyried sut y gall Gweinidogion Cymru a llywodraeth leol fodloni gofynion y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol i leihau'r anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais.

Ni fydd y cynigion yn newid y dull gorfodi. Gall Swyddog Gorfodi Awdurdodau Lleol, yn unol â'r ddeddfwriaeth bresennol, ofyn i fodurwr ddiffodd injan sy'n segura. Os na fydd y modurwr yn cydymffurfio, gellir rhoi dirwy. Felly, mae cydymffurfio â chais i ddiffodd injan sy'n troi yn ffordd i osgoi talu dirwy. Ni fydd hyn yn newid o ganlyniad i gynnig y Bil.

Rydym yn cydnabod y bydd angen i ganllawiau ddarparu fframwaith cyson ac unedig fel y gall Awdurdodau Lleol weithredu lle bo angen, yn enwedig o ran gorfodi. Cytunwn â'r adborth a gafwyd bod addysg a chodi ymwybyddiaeth yn allweddol o ran cefnogi llwyddiant gweithgarwch gorfodi.

13. Allwch chi awgrymu unrhyw ddulliau ychwanegol o fynd i'r afael ag injans sy'n segura?

Rhoddod 32 o ymatebwyr farn ar y cwestiwn hwn. Roedd yr ymatebion yn cynnwys yr awgrymiadau canlynol:

- Ymyriadau sy'n seiliedig ar gynllunio/seilwaith ac ymgyrchoedd yn y gymuned i gymell newid ymddygiad (wedi'u cynnal gan Awdurdodau Lleol neu grwpiau amgylcheddol lleol, er enghraifft).
- Negeseuon a deunyddiau (fel pecynnau cymorth).
- Ymyriadau seiliedig ar seilwaith gan gynnwys seilwaith lles gyrwyr (fel manau gorffwys, manau parcio ar ystadau diwydiannol neu gysgodfannau tacsis mewn gorsafoedd trenau).
- Mentrau newid ymddygiad gan gynnwys ystod eang o bethau megis defnyddio traciwr WOW Strydoedd Byw (her cerdded i'r ysgol gydol y flwyddyn lle mae plant yn adrodd sut maen nhw'n cyrraedd yr ysgol); a hybu Park and Stride (lle mae plant yn cael eu gyrru rywfaint o'r ffordd i'r ysgol ond yn cerdded gweddill y ffordd i leihau tagfeydd tu allan i ysgolion).

Roedd cefnogaeth i'r cynnig i gydlynu gweithgarwch atal injans yn segura o ran ansawdd aer a sŵn.

Tameidiog yw'r ddeddfwriaeth bresennol ar atal pobl rhag gadael i'w hinjans segura ac nid yw'n fuddiol cyfyngu cwmpas y ddeddfwriaeth i briffyrdd cyhoeddus yn unig, gan nad yw llygredd aer a sŵn yn parchu ffiniau daearyddol ar gyfer tir cyhoeddus neu breifat.

Byddai ailwampio'r ddeddfwriaeth i sicrhau'r cysylltiad â sŵn yn ei gwneud yn haws i Awdurdodau Lleol ymdrin â chwynion am sŵn ar safleoedd tacsis, canolfannau gweithredu cerbydau a chanolfannau dosbarthu (gan y byddai sŵn ac ansawdd aer yn cael eu cynnwys yn yr un ddeddfwriaeth ar injans yn segura).

Awgrymodd yr ymatebwyr amrywiaeth o ddulliau gweithredu eraill:

- Dylid dynodi pob lle a ddefnyddir gan bobl sensitif fel 'Parthau Diffodd Injans' a gallai camerâu gwyliadwriaeth fod yn ffordd gosteffeithiol o fonitro hyn.
- Mae Drive Thru's (fel dywed yr ymateb gan TUC Cymru) yn risg llygru aer ychwanegol i weithwyr yn y diwydiant bwyd cyflym.
- Dylai ysgolion baratoi cynlluniau gweithredu i amddiffyn plant rhag llygredd aer.
- Dylai Llywodraeth Cymru weithio i sicrhau bod dewisiadau teithio glanach (er enghraifft, drwy grantiau neu fenthyciadau di-log i yrwyr tacsis er mwyn gallu newid i Gerbydau Allyriadau Isele).
- Dylid lansio ymgyrchoedd cenedlaethol i annog pobl i beidio â gadael i'w hinjans droi.
- Ni ddylai'r gyfraith ganiatáu gadael injans diesel i segura mewn traffig na chadw'r injan i droi er mwyn trwsio nam neu bweru peiriant.
- Dylid cynnwys mesurau i atal segura mewn pecyn ehangach o fesurau i sicrhau gostyngiadau cronol mewn llygredd aer, a chynnal ymgyrch gyhoedduswydd cyn eu cyflwyno.

Dyfyniadau enghreifftiol

"Wrth fynd i'r afael ag injans sy'n segura, mae yna fantais ychwanegol o leihau sŵn diangen. Mae'n gallu bod yn anodd ymdrin â chwynion sŵn sy'n ymwneud ag injans sy'n segura mewn safleoedd tacsis, canolfannau gweithredu cerbydau a chanolfannau dosbarthu drwy'r darpariaethau niwsans statudol yn unig. Fodd bynnag, pe bai'r ddeddfwriaeth ar injans sy'n segura yn cael ei haildrefnu, yna byddai hyn yn ffordd ychwanegol o fynd i'r afael â'r problemau hyn."

Cangen Cymru y Sefydliad Acwsteg

"Mae'n hanfodol bod y rheolau ar injans yn segura yn cael eu gorfodi yn y llefydd y mae'r bobl fwyaf agored i niwed yn debygol o fod, sef o amgylch ysgolion, ysbytai, canolfannau trafniadaeth gyhoeddus, er enghraifft. Rhaid gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r niwed i iechyd a achosir gan hyn, mae'n rhaid cynyddu'r gosb am drosedd, a dylai fod yn rhan o gyfathrebu ehangach am newid ymddygiad er mwyn gwella amgylchedd strydoedd dan arweiniad Llywodraeth Cymru."

Living Streets

"Awgrymwyd hefyd na ddylid ystyried mesurau i atal injans rhag segura ar eu pen eu hunain. Mae yna gyfle i gynnal ymyriadau o'r fath ar yr un pryd â gorchmynion rheoleiddio traffig neu barthau allyriadau isel."

Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru

"Nid yw'n glir sut mae'r dull lleol yn cefnogi nodau ehangach y Bil. Pe bai dull gweithredu cenedlaethol yn cael ei fabwysiadu, gellid cynnal ymgyrchoedd cenedlaethol i addysgu pobl ac annog pobl i beidio â gadael i'w hinjans segura. Dylai'r ymgyrchoedd hyn geisio croesgyfeirio ymgyrchoedd eraill i annog teithio llesol yn lle cludiant cerbydau er mwyn annog pobl i newid ymddygiad"

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Ymateb

Rydym yn ddiolchgar am yr ymatebion i'r cwestiynau hyn, sydd wedi codi materion a syniadau defnyddiol.

Rydym yn gweithio gyda Phanel Cyngori Cymru ar Aer Glân, ac yn adolygu cyngor Grŵp Arbenigol Ansawdd Aer y DU, i ddatblygu tystiolaeth yn y maes hwn.

Rydym yn bwriadu cyhoeddi canllawiau o dan adran 88(1) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995, a fydd yn nodi sut y gellir defnyddio mesurau injans yn segura fel rhan o becyn o fesurau ategol i wella ansawdd aer; a sut y gellir gweinyddu'r drefn cosbau newydd, gan gynnwys gorfodi pobl rhag gadael i'w hinjans segura. Rydym yn bwriadu i'r canllawiau esbonio'r cysylltiadau rhwng ansawdd aer a sŵn/seinwedd a

sut y gall gwella ansawdd aer arwain at fanteision i seinwedd a all, yn ei dro, fod o fudd i iechyd pobl.

Mae ein cynigion yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â gadael injans i droi'n ddiangen ac nid ydym yn bwriadu cael gwared ar yr eithriadau cyfredol i gerbydau sy'n segura. Mae'r eithriadau hyn yn golygu caniatáu i injans segura wrth oleuadau traffig; neu i redeg yr injan i drwsio nam neu i bweru peiriant, fel peiriannau cywasgu ar gerbyd sbwriel.

14. A oes gennych chi unrhyw dystiolaeth i'w chyflwyno ar y cysylltiadau rhwng allyriadau a chysylltiad ag injans sy'n segura?

Cafwyd 13 o ymatebion swmpus i'r cwestiwn hwn a oedd yn mynegi barn ar y mater.

Dyweddodd ymatebwyr awdurdodau lleol eu bod wedi derbyn cwynion gan y cyhoedd ynghylch injans yn segura, gan gynnwys eu heffeithiau ar dir preifat. Roedd dulliau addysgu yn fwy llwyddiannus na gorfodi wrth leihau achosion o injans yn segura. Cyfeiriodd ymatebwyr at enghreifftiau ymchwil. Er enghraifft, mae canfyddiadau ymchwil gan y Labordy Ymchwil Trafnidiaeth yn dangos bod gadael i injan segura am 30 eiliad yn cynhyrchu bron ddwywaith cymaint o lygredd â diffodd ac aildanio'r peiriant. Hefyd, dangosodd astudiaeth mewn ceir a gynhaliwyd gan Gyngor Sir Gâr bwysigrwydd system egsôst wedi'i chynnal a'i chadw'n dda, gydag un cerbyd yn dangos cynnydd o 50% mewn lefelau NOx yn y car pan oedd y system egsôst yn ddiffygiol. Cyfeiriodd y TUC at adroddiad ar rai o'r peryglon sy'n wynebu gweithwyr sy'n agored i lygredd egsôst diesel (gan gynnwys o ganlyniad i injan sy'n segura), gan gynnwys adroddiadau yn y wasg am broblem llygredd aer mewn bwytai gyrru-drwedd. Bydd Cyngor Dinas Abertawe yn cynnal astudiaeth maes arall i benderfynu i ba raddau mae mesurau i atal pobl rhag gadael i'w hinjans segura ar ochr y ffordd yn lleihau llygredd aer.

Dyfyniadau enghreifftiol

"Dangosodd astudiaeth sylfaenol a gynhaliwyd gan Gyngor Sir Gâr pa mor bwysig yw system egsôst wedi'i chynnal a'i chadw'n dda, gydag un cerbyd yn dangos cynnydd o 50% mewn lefelau NOx yn y car pan oedd y system egsôst yn ddiffygiol. Y lefelau NOx cyfartalog heb unrhyw nam oedd $14.7\mu\text{g}/\text{m}^3$, o'i gymharu â $29.2\mu\text{g}/\text{m}^3$ gyda nam hysbys. Roedd yn ymddangos nad oedd fawr o gydberthynas rhwng y pellter a deithiwyd â'r lefelau NOx a gafodd eu monitro mewn cerbydau. I'r rhai ar incwm is ac sy'n methu â gwasanaethu eu cerbyd yn rheolaidd, efallai y byddant yn agored i lefelau uwch o lygredd aer gan eu cerbydau eu hunain."

Cangen Cymru y Sefydliad Acwsteg

"Dim ond am gyfnod byr y daw rhywun i gysylltiad ag injan sy'n segura. Mae angen gwneud gwaith ymchwil gofalus i weld yn union pa effaith mae hyn yn ei chael ar iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd gan gofio y gallai problemau tebyg fod yn gysylltiedig â bysiau sy'n segura mewn arosfannau bysiau, â cherbydau dosbarthu ar strydoedd prysur a gyrru stopio / dechrau mewn pentrefi, canol trefi a dinasoedd ac ati."

Cyngor Sir Ceredigion

Ymateb

Byddwn yn gwerthuso'r ymatebion a roddwyd ac yn parhau i gynnal gwaith pellach i greu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer cyflwyno darpariaethau ynghylch segura, gan weithio gyda Phanel Cyngor Cymru ar Aer Glân a Grŵp Arbenigol Ansawdd Aer y DU. Mae yna astudiaethau'n dangos bod llygredd aer yn gostwng o ganlyniad i fesurau atal injans rhag segura. Mae yna dystiolaeth ansoddol hefyd bod problemau sŵn yn codi o cerbydau sy'n troi. Ceir enghreifftiau bod injans sy'n segura yn creu problem sŵn, megis pan fydd tacsis neu gerbydau danfon yn yr oriau mân o flaen tŷ;

neu nifer o gerbydau yn yr un lle â'u hinjan yn segura, yn aml mewn man sensitif (megis ysgol).

Mae angen cyfuno mesurau er mwyn cael mwy o effaith ar drafnidiaeth ffyrdd. Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth yn cyfeirio at ymyriadau sy'n gweithio'n well fel pecyn o fesurau i fynd i'r afael â llygredd aer. Dyma pam rydym yn cynnig canllawiau sy'n nodi ystod o fesurau a chamau gweithredu i ategu mesurau i atal injans yn segura.

Llosgi Domestig

15. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i drosi Rhan 3 o Ddeddf Aer Glân 1993 (Rheoli Mwg) i ddeddfwriaeth Cymru?

O'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad, roedd 24 yn cytuno; 6 yn anghytuno; ac fe roddodd 2 farn bellach.

Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at y ffaith bod y ddeddfwriaeth hon eisoes ar gael i ni yng Nghymru, pe bai awdurdodau lleol yn dymuno'i defnyddio. Cyfeiriodd nifer o sylwadau at yr ymgynghoriad ar yr un pwnc [Lleihau allyriadau yn sgil llosgi tanwydd solet i ddibenion domestig | LLYW.CYMRU](#), a gododd gwestiynau am y mathau o danwydd a losgir a'r cyfarpar y gellir eu llosgi ynddynt.

Codwyd materion yn ymwneud â lefel yr orfodaeth a'r opsiynau ar gyfer amddiffyniad cyfreithiol o dan ddeddfwriaeth rheoli mwg hefyd.

Dyfyniadau enghreifftiol

"Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn cefnogi'r cynnig hwn mewn egwyddor, ond byddai'n annog gofal ynghylch mesurau dros gamau codi ymwybyddiaeth, am resymau a nodir mewn manau eraill yn y ddogfen hon. Mae gan yr elfen hon gysylltiad â thlodi tanwydd hefyd, a chan fod llawer o ardaloedd yn dal i fod oddi ar y grid yng Nghymru (tua 17% o aelwydydd), credwn y gellid ymdrin â'r adran hon mewn modd mwy soffistigedig. Fel gydag elfennau eraill o ansawdd aer, rydym yn credu hefyd mai prin iawn yw'r ddealltwriaeth sydd gan y cyhoedd o lygredd aer dan do yn gyffredinol. Amlygwyd hyn yn adroddiad y Panel Cyngori ar Aer Glân fel maes a allai fod wedi cynyddu dros gyfnod y pandemig Covid, ac mae angen adnoddau sy'n cefnogi ymwybyddiaeth a newid ymddygiad i fynd i'r afael â'r mater hwn."

Cadwch Gymru'n Daclus

"Mae angen set glir o reolau er mwyn cael amddiffyniad i drosedd sifil honedig, fel y bydd defnyddwyr sydd wedi buddsoddi mewn llosgwyr pren sy'n cydymffurfio ag

Ecodesign sy'n llosgi tanwydd pren wedi'i ardystio'n briodol (e.e. tanwydd pren parod i'w losgi) yn gwybod y gallant gyflwyno hyn fel tystiolaeth i amddiffyn hawliad sifil. At hynny, mae angen cronfa ddata gyfredol, hawdd ei defnyddio ac y gellir ei diweddarau'n hawdd o gyfarpar sy'n esempt o dan reoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg. Nid yw'r system bresennol o restru'r offer hyn drwy Offeryn Statudol yn addas i'r diben."

Stove Industry Alliance

"Mewn egwyddor, rydym yn cytuno gyda sicrhau bod gan awdurdodau lleol y gallu i reoli mwg yn eu hardaloedd trefol. Fodd bynnag, yn unol â'n hymateb i'r Ymgynghoriad Llosgi Tanwyddau Solet i Ddibenion Domestig, mae llawer o gartrefi a busnesau gwledig yn dibynnu ar losgi tanwydd solet ar gyfer gwresogi, a hynny'n aml pan nad oes ffynonellau gwresogi amgen ar gael neu eu bod yn rhy ddrud. Rydym yn annog yn gryf nad yw parthau rheoli mwg yn cael eu hymestyn i ardaloedd gwledig ond bod cyngor ac arweiniad gwell yn cael ei gynnig i sicrhau bod coed wedi'i sychu a dulliau effeithlon o losgi'n cael eu hannog."

TUC Cymru

Ymateb

Gall trosi deddfwriaeth bresennol yn Ddeddf Aer Glân i Gymru ganiatáu i unrhyw ddiwygiadau neu newidiadau yn y dyfodol gael eu deddfu'n gyflymach yng nghyfraith Cymru. Fodd bynnag, nid yw trosi'n golygu y caiff newidiadau eu gwneud i'r ddeddfwriaeth bresennol. Felly, rhoddir ystyriaeth i'r manteision a'r anfanteision sy'n gysylltiedig â chyfuno. Byddwn yn ystyried y pwyntiau a godwyd yn yr ymgynghoriad hwn wrth ddatblygu unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth rheoli mwg yng Nghymru yn y dyfodol.

Mae Deddf yr Amgylchedd y DU 2021 yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi rhestrau o danwyddau awdurdodedig a chyfarpar esempt y gellir eu defnyddio'n gyfreithiol mewn Ardaloedd Rheoli Mwg. Bydd hyn yn golygu symud oddi wrth ddefnyddio Offerynnau Statudol a mabwysiadu rhestrau ar-lein.

Roedd Deddf yr Amgylchedd 2021 yn diwygio'r ffordd y caiff rheoli mwg ei orfodi yn Lloegr hefyd, gan newid hyn o sail trosedd i gyfraith sifil. Byddwn ni'n ystyried cynnig tebyg o ran deddfwriaeth rheoli mwg yng Nghymru.

16. A oes unrhyw agweddau eraill ar y Ddeddf Aer Glân y byddech chi'n ystyried eu bod yn briodol i'w cynnwys yn neddfwriaeth Cymru?

O'r ymatebwyr i'r cwestiwn agored hwn, roedd 15 o atebion naratif yn cynnig meysydd eraill i'w cadw mewn cof.

Er enghraifft:

- Peiriannau symudol oddi-ar-y-ffordd (e.e. peiriannau adeiladu trwm, peiriannau rowlio ac ati);
- Cyfyngiadau ar werthu pren mewn gorsafoedd petrol ar gyfer llosgi domestig;
- Llosgi yn yr awyr agored (gan gynnwys gwastraff gardd, barbeciws a phyllau tân);
- Newid aelwydydd o foeleri gwres canolog nwy ac olew i ddulliau glanach eraill;
- Gorfodi llymach ar safonau allyriadau egsôst cerbydau, yn enwedig cerbydau sy'n allyrru mwg du gweladwy;
- Mwy o addysg a hysbysebu er mwyn rhoi gwybod i'r cyhoedd am faterion aer glân a sut i wneud newidiadau er mwyn ei wella.
- Allyriadau o gyhoch dyfrffyrdd mewndirol (e.e., cychod camlas ac ati).

Dyfyniadau enghreifftiol

"Rhan 2 – Gofynion uchder simnai ar gyfer datblygiadau, gan fod fflw annigonol wrth wraidd y problemau mwg hynny sy'n codi y tu allan i ardaloedd rheoli mwg."

Cyngor Dinas Casnewydd

"Mae Deddf Aer Glân 1993 yn gwahardd gollwng mwg du o eiddo masnachol neu fusnes. Yn fy ardal i (LL57) mae cryn dipyn o berchnogion tai preswyl yn llosgi gwastraff plastig yn rheolaidd yn lle tân yr aelwyd gan achosi dirywiad sylweddol yn ansawdd yr aer sy'n llawer gwaeth na'r glo tŷ gwaethaf. Mae angen gorfodi llymach yn erbyn unigolion o'r fath a fframwaith rheoleiddio cliriach, fel y gallai adrannau lechyd yr Amgylchedd Awdurdodau Lleol fynd i'r afael â'r mater gwrthgymdeithasol a hunanol hwn, gan fod hwn yn wastraff a ddylai fynd i'r sector ailgylchu mae'n debyg yn hytrach na'i losgi."

Ymatebydd unigol (Dienw)

Ymateb

Rydym yn ddiolchgar am yr awgrymiadau ychwanegol a byddant yn cael eu hystyried wrth ddatblygu polisi yn yr ardaloedd penodol lle codir pryderon. Mae rhai o'r rhain, megis allyriadau cerbydau, yn faterion a gedwir yn ôl ar gyfer Llywodraeth y DU.

Awgrymodd nifer o ymatebwyr awdurdodau lleol y byddai Rhan II (Mwg, Graean, Llŵch a Mygdarth) o Ddeddf Aer Glân 1993 yn elwa o gael ei chynnwys yn neddfwriaeth Cymru hefyd. Byddwn yn ystyried hyn ymhellach, ynghyd â manteision cynnwys Rhan 1 (Mwg Tywyll), a chynnwys cychod mewn deddfwriaeth rheoli mwg, fel sy'n digwydd yn Lloegr bellach o dan ddarpariaethau Deddf yr Amgylchedd 2021.

Rydym yn cytuno y dylid cael ymgyrch addysg a gwybodaeth am yr hyn sy'n rhesymol i'w losgi a phryd y mae'n rhesymol gwneud hynny. Byddwn yn ystyried hyn ymhellach wrth ddatblygu polisi yn y maes hwn.

O ran y meysydd ychwanegol a amlygwyd:

- *Allyriadau o gychod dyfrffyrdd mewndirol (e.e., cychod camlas ac ati).*

Daw allyriadau o gychod dyfrffordd mewndirol o dan Ddeddf Aer Glân 1993. O ystyried y gwelliannau a wnaed drwy Ddeddf Amgylchedd 2021, byddai'n rhesymol ystyried yr elfen hon ar gyfer deddfwriaeth Gymreig. Byddai'n mynd i'r afael ag allyriadau o gychod sydd wedi'u hangori o fewn ardal rheoli mwg ddynodedig. Fodd bynnag, rhoddir ystyriaeth i'r nifer o gychod y disgwylir iddynt ddod o dan y cynnig a'r costau cydymffurfio cysylltiedig.

Y tu hwnt i ffiniau ardaloedd o'r fath, byddai unrhyw allyriadau o bosibl yn dod o dan ddarpariaethau Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (EPA1990), yn benodol adran 79 sy'n ymwneud â niwsans statudol.

- *Peiriannau symudol oddi-ar-y-ffordd (e.e. peiriannau adeiladu trwm, peiriannau rowlio ac ati.)*

Mae safonau allyriadau cerbydau a'r NRMM yn faterion cadw nad ydyn nhw wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru a Senedd Cymru.

- *Cyfyngiadau ar werthu pren mewn gorsafoedd petrol ar gyfer llosgi domestig;* Rydym yn parhau i ystyried cynigion, yr ymgynghorwyd arnynt ar wahân, ar gyfyngu ar werthu pren gwlyb. Y brif broblem o ran gwerthu pren gwlyb yw'r ffordd y mae'r pren yn cael ei storio. Mae dadl felly o blaid addysg ac arweiniad i fanwerthwyr o ran yr arferion gorau o ran storio ac eir i'r afael â hyn.

- *Llosgi yn yr awyr agored (gan gynnwys gwastraff gardd, barbeciws a phyllau tân).*

Ar hyn o bryd nid oes cynlluniau i reoleiddio llosgi yn yr awyr agored, y tu hwnt i'r hyn sydd eisoes yn cael ei wneud o dan EPA1990. Bydd swyddogion yn ymchwilio i feysydd ymchwil a chasglu tystiolaeth posibl gyda chydweithwyr ar draws y llywodraeth e.e., Polisi Gwastraff, Llywodraethu Amgylcheddol.

- *Newid aelwydydd o foeleri gwres canolog nwy ac olew i ddulliau glanach eraill;*

Nid yw hyn yn dod o dan y Bil Aer Glân. Mae Llywodraeth Cymru'n ymwybodol bod angen troi cefn ar losgi tanwydd ffosil yn ei holl ffurfiau lle bo hynny'n ymarferol ac effeithiol.

- Gorfodi llymach ar safonau allyriadau egsôst cerbydau, yn enwedig cerbydau sy'n allyrru mwg du gweladwy;

Fel y nodwyd uchod, mae safonau allyriadau sy'n ymwneud â cherbydau ac NRMM yn faterion cadw nad ydyn nhw wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru a Senedd Cymru.

- *Mwy o addysg a hysbysebu er mwyn rhoi gwybod i'r cyhoedd am faterion aer glân a sut i wneud newidiadau er mwyn ei wella.*

Mae hwn yn waith gwerthfawr a hanfodol a fydd yn cael ei ddatblygu ochr yn ochr ag unrhyw ddeddfwriaeth.

17. Ydych chi'n cytuno y bydd newid y drefn orfodi o gamau troseddol i gamau sifil yn helpu i wella gorfodaeth?

O'r ymatebwyr, roedd 19 yn cytuno; 5 yn anghytuno; ac fe roddodd 6 farn ysgrifenedig.

Ymatebodd nifer o Awdurdodau Lleol a chyrrff swyddogol eraill fod y ddeddfwriaeth bresennol yn ei gwneud hi'n anodd ac yn gymhleth cymryd camau gweithredu gan fod y baich profi ar gyfer erlyn troseddol yn uchel.

Roedd galw am wella'r cyngor a oedd ar gael i aelwydydd a busnesau cyn cyflwyno unrhyw newidiadau posibl, ynghyd â galw i gadw cosbau troseddol am droseddau dybryd neu ail-droseddu.

Dyfyniadau enghreifftiol

"Bydd yr agwedd hawsaf ar reoli yn ymwneud ag ansawdd tanwydd a dyluniad / perfformiad offer, tra bydd y gadwyn gyflenwi a defnyddwyr terfynol yn anodd iawn i'w rheoleiddio. Felly, mae'n ymddangos yn anochel bod angen rhagdybiaeth o blaid rheoli mwg."

Sefydliad Acwsteg

"Deallir y bydd y darpariaethau troseddol mewn perthynas â rhannau eraill o Ddeddf Aer Glân 1993 yn cael eu cadw. Mae barn awdurdodau lleol yn cefnogi cadw'r darpariaethau troseddol ynghylch gwerthu tanwydd a chyfarpar awdurdodedig. Byddai ymarfer i asesu faint o orfodaeth fel mater sifil o'i gymharu â mater troseddol yn ddefnyddiol er mwyn helpu i nodi'r dull gorfodi mwyaf priodol. Fodd bynnag, fel mater sifil, byddai'r baich profi yn is nag ar gyfer mater troseddol."

Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru

Ymateb

Byddai gostwng y trothwy gorfodi o droseddol i sifil yn caniatáu mwy o botensial i awdurdodau lleol orfodi ardaloedd rheoli mwg a mynd i'r afael â llosgi sydd naill ai'n wrthgymdeithasol neu'n achosi niwsans. Fodd bynnag, mae'r pwyntiau a godwyd ynghylch cadw rhyw elfen lle gallai erlyniad troseddol ddod yn opsiwn yn ddilys hefyd. Byddwn yn ystyried y pwyntiau hyn wrth ddatblygu deddfwriaeth yn y dyfodol.

18. A fydddech chi'n cytuno, yng ngoleuni'r dystiolaeth, y dylid rhagdybio o blaid Rheoli Mwg, mewn ardaloedd trefol o leiaf?

O'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 23 yn cytuno; 3 yn anghytuno; ac fe roddodd 4 farn ysgrifenedig.

Roedd llawer o gefnogaeth i lefel o wahaniaethu rhwng ardaloedd trefol a gwledig, ond roedd amheuaeth hefyd ynghylch beth fyddai'r diffiniad o'r ardaloedd hynny. Yn gyffredinol, mae'r sylwadau'n awgrymu bod mwg mewn lleoliad trefol yn fwy tebygol o achosi problemau iechyd a niwsans nag mewn ardaloedd mwy gwledig. Cafwyd sylw hefyd fod agweddau eraill ar lygredd aer, fel chwalu tail/slyri, yn bryder i ardaloedd gwledig ond nid i ardaloedd trefol.

Codwyd natur yr hyn y mae unigolion yn ei losgi hefyd, gydag enghreifftiau o wastraff cartref, plastig a gwastraff gardd yn cael eu crybwyll. O ran gwastraff gardd, roedd awgrym y dylai fod yn ofynnol i gynghorau ei gasglu er mwyn cael gwared ar losgi mewn ardaloedd rheoli mwg fel opsiwn.

Dyfyniadau enghreifftiol

"Byddwn, ond gwnewch yn siŵr bod ardaloedd trefol yn cynnwys pentrefi sy'n bentrefi mewn enw'n unig. Rwy'n byw mewn pentref gyda phoblogaeth o dros 2,000."

Ymatebydd unigol

"O ystyried effaith llosgi domestig ar ansawdd aer, byddem. Bydd y cam hwn yn gwella ansawdd aer i bawb ond bydd yn gwella iechyd a diogelwch galwedigaethol gweithwyr awyr agored yn arbennig."

TUC Cymru

Ymateb

Mae angen gwneud rhagor o ymchwil ac ymgynghori ar ba feini prawf y gellid eu cymhwyso i ddiffinio Ardal Rheoli Mwg. Byddwn yn ystyried yr holl ymatebion wrth ddatblygu polisi yn y maes hwn. Mae iechyd a diogelwch y gweithlu yn fater cadw nad yw wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru a Senedd Cymru.

Commented [SO(EEP28)]: What is reserved and not

Commented [BP29R28]: addressed

Commented [PP30]: I suggest removing the point about considering extended smoke controls as we are necessarily committing to doing that ourselves are we? And would the education + information campaign sentence perhaps sit better with q16? Given that we're not sure what to do this work, perhaps the response to this question should highlight that this a complicated area that needs further evidence etc and so we will take all the responses into account to develop this policy further?

Commented [BP31R30]: agree, have moved

Grymuso Gweithluoedd i Fynd i'r Afael â Llygredd Aer

19. Ydych chi'n cytuno â'r cynigion?

O'r ymatebwyr a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd 29 yn cytuno (gyda chyfran yn cytuno mewn egwyddor yn amodol ar ystyriaeth gan Lywodraeth Cymru o'r ystyriaethau a nodir isod). Roedd 5 o'r ymatebwyr yn anghytuno; a mynegodd 3 ymatebydd farn.

Gwelwyd y gallai'r canllawiau greu ymdeimlad o weithredu ar y cyd, gan helpu Llywodraeth Cymru i dargedu ymateb, rheoleiddio'n fwy effeithiol a chynnal cynnydd.

Ond cydnabuwyd hefyd y byddai angen cynnig cymorth a chyngor ymarferol i helpu gweithluoedd i weithredu a mynegwyd y farn bod angen cynnwys ystod ehangach o gyrff cyhoeddus o dan y cynnig.

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod angen datblygu meini prawf a'u cymhwyso o ran maint y sefydliadau sy'n cymryd rhan ac ynghylch sut y bydd gwybodaeth yn cael ei defnyddio a'i rheoli.

Roedd nifer o'r ymatebwyr yn poeni sut y byddai'r canllawiau arfaethedig yn cael eu gorfodi.

Dyfyniadau enghreifftiol

"Rydym yn croesawu'r cynigion i rymuso gweithluoedd ledled Cymru i fynd i'r afael â llygredd aer. Mae Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant yn gadarn o blaid polisïau, arferion a deddfwriaeth genedlaethol sy'n ceisio gwella ansawdd aer awyr agored, a rhannu gwybodaeth a chefnogi'r cyhoedd i weithredu."

Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant

"Byddai'n rhaid cefnogi gweithluoedd a sefydliadau rhestredig eraill drwy gyngor a chymorth ymarferol er mwyn iddynt weithredu."

Cadwch Gymru'n Daclus

"Rydym yn cefnogi'r cynnig hwn mewn egwyddor ond hoffem weld ystod ehangach o gyrff cyhoeddus yn cael eu rhestru fel rhai sy'n dod o dan y gofyniad hwn. Dylai hyn gynnwys Llywodraeth Cymru, a'r Gwasanaeth Sifil ehangach Cymru, a ddylai, yn ein barn ni, arwain drwy esiampl ar hyn."

Cyfoeth Naturiol Cymru

"Rydym yn cytuno'n betrus y gallai annog gweithluoedd i weithio gyda chyflogwyr i fynd i'r afael â llygredd aer fod o fudd net, ond nid yw'n glir pa ddulliau fyddai'n cael eu defnyddio i "rymuso" gweithluoedd. Unwaith eto, heb ffiniau clir, gall fodd yn hawdd camddefnyddio'r cynigion hyn. Ewch ati i gynhyrchu canllawiau ar bob cyfrif, ond rydym yn cwestiynu gorfodadwyedd cynigion o'r fath."

Mineral Products Association

Ymateb

Commented [GP32]: I think it's important for our responses to reflect the changes we agreed upon since the conclusion of the consultation, that is, the proposal changed to placing a statutory duty on Welsh Ministers to produce non-statutory guidance for inter-sectoral work forces.

Rydym yn croesawu'r safbwyntiau amrywiol a gafwyd. Roedd cefnogaeth glir i roi cefnogaeth ac arweiniad gwell ynghylch gweithredu i wella llygredd aer a lleihau cysylltiad â llygredd aer. Fodd bynnag, codwyd nifer o bryderon ynghylch sut y gellid gorfodi canllawiau o'r fath a maint eu dylanwad. |

Yn sgil yr adborth a ddaeth i law, rydym wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen â chynigion i gyhoeddi canllawiau i'r gweithlu. Yn hytrach, byddwn ni'n edrych ar sut y gallwn ddefnyddio'r cyfle hwn i sicrhau bod deddfwriaeth ansawdd aer yn cefnogi ymdrechion parhaus i hyrwyddo ymwybyddiaeth o lygredd aer. Byddai hwn yn ffordd frasach na'r cynnig yr ymgynghorwyd arno, ac yn ymdrin ag ystod ehangach o bynciau a materion. Byddwn yn croesawu mewnbwn ar y dull newydd hwn wrth i'r Bil ddatblygu a bod yn destun craffu gan y Senedd. |

Commented [SO(EEP33)]: Intri

Commented [SO(EEP34)]: Introduce what is the proposal

20. Beth yw manteision/anfanteision y cynnig?

Cafwyd 26 o ymatebion i'r cwestiwn hwn a ofynnodd beth yw'r farn am fanteision ac anfanteision y cynnig i ddatblygu a chyhoeddi canllawiau i'r gweithlu ar ansawdd aer. Roedd manteision y cynnig a nodwyd yn cynnwys:

- Dylai canllawiau statudol alluogi Llywodraeth Cymru i wneud penderfyniadau gwybodus mewn perthynas â blaenoriaethu a datblygu polisi.
- Bydd codi ymwybyddiaeth o lygredd aer yn bwysig er mwyn helpu'r cyhoedd i ddeall y materion ehangach sy'n ymwneud â llygredd aer.
- Bydd y canllawiau'n rhoi ffocws ar ansawdd aer ac yn gwneud cwmnïau'n llai hunanodlon ynghylch materion y tu allan i'w sefydliadau eu hunain.
- Mae cyfle i ddatblygu fframwaith safonol (fel templedi adrodd, offer, cyfrifianellau ac enghreifftiau o arferion gorau).
- Cyfle i gysoni gofynion adrodd â gofynion agendâu cyflenwol, gan gynnwys y cyfle i ymgysylltu â gweithluoedd i ennyn mwy o gefnogaeth.

Ond cafodd nifer o bryderon eu codi hefyd, gan gynnwys:

- A fyddai cosbau am beidio ag adrodd neu gydymffurfio, gan gynnwys beth fyddai ffurf gorfodi.
- Oes gan Lywodraeth Cymru y gallu i ddadansoddi/defnyddio'r data y bydd yn ei dderbyn.
- A fydd y cynnig yn cynyddu'r beichiau ar fusnes.
- I ba raddau y bydd gorfodi yn her.
- A ddylai'r sectorau preifat a gwirfoddol gael eu cynnwys ymlaen llaw yn y gwaith datblygu er mwyn sicrhau cydweithio da â Llywodraeth Cymru.
- A ellid cyflwyno trothwy gweithwyr gan y gallai'r gofynion biwrocraidd greu anhawster i sefydliadau llai.

Dyfyniadau enghreifftiol

"Mae'n bosibl y byddai gallu Llywodraeth Cymru i ddadansoddi a defnyddio'r cyfoeth enfawr o ddata a gaiff yn effeithiol yn anfantais."

Cyswllt Amgylchedd Cymru

"Mae gan undebau rôl glir i'w chwarae o ran sicrhau bod llais y gweithiwr yn cael ei glywed, bod gweithwyr yn cael eu diogelu a'u cynnwys a'u pryderon yn cael sylw. Hoffem weld rôl yr undebau llafur, o ran mynd i'r afael â llygredd aer, yn rhan annatod o'r canllawiau statudol (wrth gydnabod cyfrifoldebau cyfreithiol cyflogwyr)."

TUC Cymru

"Mae'r potensial yma i arwain at newidiadau cadarnhaol i grynodiadau ansawdd aer yn lleol ac yn genedlaethol."

Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru

“Bydd cofnodi gwybodaeth yn caniatáu i'r llywodraeth wneud penderfyniadau gwybodus.”

Cymdeithas Cyngorau Lleol y Gogledd a'r Canolbarth

Ymateb

Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer amlinellu pa fuddion y gallai'r cynnig eu cyflwyno, yn ogystal â nifer o rwystrau posib i'w gweithredu.

Fel yr esboniwyd yn yr ymateb i gwestiwn 19, rydym wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen â'r cynigion ynghylch canllawiau i'r gweithlu ond yn lle hynny, byddwn yn ystyried opsiynau deddfwriaethol fydd yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth. Bydd hynny'n dal yn ei gwneud hi'n bosib cydweithio i ddatblygu a chyhoeddi gwybodaeth sy'n berthnasol i weithlu gan ddiwallu'r angen ehangach am fwy o ymwybyddiaeth am lygredd aer. Codwyd hyn gan nifer o randdeiliaid. Byddwn yn defnyddio awgrymiadau a gafwyd gan randdeiliaid i lywio datblygiad y trywydd hwn sy'n canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth.

21. Ym mha ffyrdd eraill y gellid darparu'r canllawiau, neu gan bwy? Rhowch fanylion.

Cafwyd 24 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Cafwyd amrywiaeth eang o awgrymiadau gan yr ymatebwyr:

- Dylai'r canllawiau statudol roi cymorth a chynghor ymarferol i weithluoedd ar sut i atal/lleihau llygredd aer.
- Dylai'r canllawiau gael eu hintegreiddio â mentrau eraill (fel teithio llesol a'r economi gylchol).
- Gellir darparu pecynnau gwybodaeth i rieni/cyhoeddus i ysgolion ar sut i fynd i'r afael â llygredd aer.
- Dylai fod gan Gyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd mewn Awdurdodau Lleol rôl fwy gweithredol o ran gwella ansawdd aer.
- Gallai Llywodraeth Cymru gefnogi rhwydwaith o 'hyrwyddwyr ansawdd aer' llewg mewn ysgolion, Awdurdodau Lleol a busnesau er mwyn codi ymwybyddiaeth o faterion ansawdd aer (a fyddai'n debyg i'r cysyniad o hyrwyddwyr ansawdd aer ar gyfer iechyd sy'n rhoi cynghor a hyfforddiant i feddygon teulu a staff meddygfeydd).
- Gellid sefydlu Ardaloedd Gwella Busnes (ardaloedd penodol lle mae'n ofynnol i fusnesau dalu ardoll ychwanegol i ariannu prosiectau o fewn ffiniau'r ardal) i fynd i'r afael â llygredd aer.
- Dylid sefydlu corff trosfwaol i gyflawni amcanion ansawdd aer a newid hinsawdd.

Cafwyd lluo o awgrymiadau yn ymwneud â'r mathau o weithgareddau y gallai gweithluoedd gymryd rhan ynddynt, megis:

- Negeseuon ar y cyd ar ansawdd aer gan gyrrff anllywodraethol amgylcheddol ac iechyd a phartneriaeth aml-sefydliad ar lefel leol a rhanbarthol gan ganolbwyntio ar iechyd, cynllunio, yr amgylchedd, ffermio a diwydiant.
- Mae angen ymgorffori ystyriaethau ansawdd aer ymhellach mewn polisiau/canllawiau cynllunio.

Roedd cefnogaeth i ddefnyddio cynrychiolwyr gwyrdd undebau llafur i hyrwyddo gwella ansawdd aer yn y gweithle.

Dyfyniadau enghreifftiol

"Rydym yn cytuno â chynigion a fyddai'n gweld mwy o weithluoedd ledled Cymru yn gwneud eu rhan wrth symud i ffwrdd o'r defnydd o'r cerbyd modur preifat ac yn mabwysiadu dulliau teithio llesol neu'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Rhaid i hyn gwmpasu pob math o weithrediadau busnes, o gadwyni cyflenwi busnes ac anghenion symudedd gweithwyr i weithwyr sy'n teithio yn ôl ac ymlaen i'w gweithle. Mae Living Streets yn gweithio gyda chyflogwyr ledled y DU ar gymorth amrywiol, gan gynnwys datblygu polisi teithio llesol, cyfathrebu â gweithwyr ac adnoddau i staff, a byddem yn barod i gamu i mewn a chefnogi'r gweithlu yng Nghymru i ddechrau cerdded. Mae gan bawb gyfraniad i'w wneud o ran lleihau effeithiau niweidiol ansawdd aer gwael, un cam ar y tro."

Living Streets

“Byddem yn croesawu cynnwys plant a phobl ifanc yn y cynlluniau hefyd. Mae ein rhwydwaith ymgysylltu RCPCH &Us wedi tynnu sylw at bwysigrwydd cynnwys plant a phobl ifanc ym mhob penderfyniad.”

Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant

“Mae’n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn parhau i symud tuag at gydweithio, nid yn unig o fewn awdurdodau lleol, ond ar draws pob ardal i sicrhau’r budd mwyaf o ostyngiadau mewn crynodiadau ansawdd aer.”

Cyfarwyddwyr Diogelu’r Cyhoedd Cymru

“Dylai’r canllawiau ddod o un ffynhonnell (h.y. Gwefan Llywodraeth Cymru). Bydd ffynonellau niferus yn creu dryswch.”

Cymdeithas Cyngorau Lleol y Gogledd a’r Canolbarth

Ymateb

Mae’r awgrymiadau a restrir uchod yn tynnu sylw at thema gyffredin o godi ymwybyddiaeth am lygredd aer ar draws cymdeithas. Dyma sydd wedi bwydo’n penderfyniad a ddisgrifir yn ein hymateb i gwestiwn 19 i beidio â bwrw ymlaen â’r cynigion ar ganllawiau i’r gweithlu, ond yn hytrach i ganolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth. Byddwn yn defnyddio’r awgrymiadau yn yr atebion i’r cwestiwn hwn i ystyried opsiynau deddfwriaethol a pholisi ochr yn ochr â mecanweithiau cyflawni.

22. Beth fyddai'r ffordd orau i randdeiliaid adrodd ar gynnydd i Lywodraeth Cymru ac

23. A oes gennyh chi unrhyw bwyntiau ychwanegol i'w gwneud?

Commented [PP35]: I've combined these because I don't think it made sense to keep repeating the same thing. Hope that's ok!

Cafwyd 66 yn ymateb i'r ddau gwestiwn hwn.

Roedd cefnogaeth i greu ffurflen ar-lein er mwyn ei gwneud hi'n hawdd, cyflym a syml cyflwyno adroddiad; ond roedd ymatebwyr eraill yn ffafrio adroddiadau ysgrifenedig rheolaidd. Os yw fformat yr adroddiad yn aros yr un fath, gallai sefydliadau gynhyrchu gwybodaeth yn awtomatig. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at wefan Ansawdd Aer Cymru fel ystorfa addas y gellid uwchlwytho adroddiadau cynnydd iddi.

Roedd rhai o'r farn y byddai proses adrodd bob chwe mis yn feichus, ac y dylid ystyried gofyniad adrodd llai aml sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Roedd rhai ymatebwyr o blaid adroddiadau blynyddol.

Dyfyniadau enghreifftiol

“Mae Logistics UK yn credu bod angen ystyried hyn yn ofalus ac na ddylai fod yn feichus ar y rhai sy'n gorfod adrodd. Byddem yn argymhell ymgynghori pellach ar hyn, os caiff y pŵer hwn ei gynnwys yn y Bil.”

Logistics UK

“Mae'n bwysig parhau i roi arweiniad a chefnogaeth i gymunedau a thrafod â nhw, a bod gwella'r cyfraniad y gall y cymunedau hyn ei wneud at yr agenda ansawdd aer yn parhau. Gellir adeiladu ar waith gwefan 'Diwrnod Aer Glân' i gynyddu hygyrchedd ymhellach a'r nifer sy'n manteisio ar y cynllun mewn ysgolion a grwpiau gwirfoddol cymunedol.”

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

“Mae'n bwysig deall y telerau a'r ffyrdd o rymuso gweithluoedd, yn ogystal â beth fyddai eu heffaith, pa gamau y gellid eu cymryd ac a fyddai'n effeithiol yn y maes polisi penodol hwn.”

Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru

“Mae angen i gyfathrebu ar ansawdd aer fod yn seiliedig ar fewnbwn cymunedau/rhanddeiliaid a'i sbarduno ganddo, gan fod newid eu hymddygiad nhw'n hanfodol er mwyn sicrhau'r gostyngiadau gofynnol mewn llygryddion aer.”

Cyngor Dinas Casnewydd

“Gallai sefydlu bwrdd rhanddeiliaid fod yn un opsiwn, er y gallai gynnwys llawer iawn o aelodau ac y byddai'n anodd rheoli cyfarfodydd wedyn.

Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu Cymru

Ymateb

Fel y disgrifiwyd yn yr ymatebion i gwestiynau 19, 20 a 21, rydym wedi penderfynu peidio â chynnig canllawiau i'r gweithlu ac rydym yn hytrach am ganolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o lygredd aer yn ehangach. Teimlwn y byddai hynny'n ymateb i'r awgrymiadau cadarnhaol a'r pryderon a godwyd ar y cynnig gwreiddiol, fel y mae'r dyfyniadau enghreifftiol uchod yn eu dangos.

Byddwn i gyd yn defnyddio'r sylwadau a'r awgrymiadau a wneir drwy'r ymgynghoriad hwn i benderfynu beth i'w wneud. Rydym yn cydnabod bod rhanddeiliaid eraill, mewn rhai cyd-destunau (gan gynnwys llawer a ymatebodd i'r ymgynghoriad hwn) yn negeswyr mwy priodol na'r llywodraeth ar rai pynciau llygredd aer. Felly, byddem yn croesawu cydweithredu i ddatblygu a chyflwyno ymdrechion i godi ymwybyddiaeth am lygredd aer, er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd naturiol.

Y Gymraeg

24. Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r darpariaethau yma yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg.

Atebodd 15 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Nid oedd unrhyw ymatebwyr yn meddwl y byddai'r ddeddfwriaeth hon yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar y Gymraeg. Nodwyd y dylid ymgysylltu cymaint â phosibl â'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ymateb

Byddwn yn parhau i hyrwyddo ac ymgysylltu drwy gyfrwng y Gymraeg gydol proses y Bil.

25. Yn eich barn chi, beth fyddai'r effaith? Sut y gellir cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Derbyniwyd 13 ymateb i'r cwestiwn hwn. Nid oedd yr un ymatebydd o'r farn y byddai'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn cael unrhyw effaith negyddol neu gadarnhaol ar y Gymraeg. Fodd bynnag, trwy gynyddu'r gwaith cyfathrebu gallai hynny hyrwyddo'r Gymraeg.

Ymateb

Rydym yn parhau i hyrwyddo ac ymgysylltu drwy gyfrwng y Gymraeg gydol proses y Bil.

26. Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credu y gallai'r darpariaethau arfaethedig gael eu llunio neu eu newid i gael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cynyddol gadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r iaith Saesneg.

Cafwyd 10 ymateb i'r cwestiwn hwn, a nodai y gallai'r darpariaethau canlynol helpu i gefnogi'r gwaith o hybu'r Gymraeg:

- Drwy sicrhau bod yr holl gyfathrebiadau ysgrifenedig yn ddwyieithog.
- Mynediad at staff sy'n siarad Cymraeg lle caiff darpariaethau unrhyw bapur gwyn eu mabwysiadu a'u gweithredu.
- Unrhyw gynllun yn y dyfodol i fabwysiadu iaith a symbolau sy'n gysylltiedig â'r Gymraeg, ond sy'n gallu cael eu deall yn glir gan y gynulleidfa ehangaf bosibl.
- Gall defnyddio'r Gymraeg ym meysydd ymgysylltu, rheoleiddio, ardystio, marchnata ac mewn canllawiau a dogfennau ategol technegol helpu i ddangos ymhellach y defnydd o'r Gymraeg ym mhob lleoliad.

Ymateb

Rydym wedi ymrwmo i hyrwyddo'r Gymraeg. Bydd mynediad at wybodaeth a dogfennau Cymraeg ar gael ym mhob cam o'r broses ymgynghori.

Camau nesaf Llywodraeth Cymru

Mae cymryd camau i wella ansawdd aer yn flaenoriaeth allweddol i gefnogi cymunedau iachach, natur ac amgylcheddau gwell. Mae ein Rhaglen Lywodraethu'n ymrwmo i gyflwyno Deddf Aer Glân i Gymru, sy'n cyd-fynd â chanllawiau Sefydliad Iechyd y Byd.

Mae'r nifer fawr o ymatebion a gafwyd i'r Papur Gwyn wedi rhoi adborth gwerthfawr i lywio a datblygu consensws o gwmpas y cynigion sydd yn y Papur Gwyn a'r Cynllun Aer Glân i Gymru.

Rydym yn parhau i weithio gyda'n rhanddeiliaid a'n partneriaid i ddatblygu a gweithredu'r ddeddfwriaeth bwysig hon ar ansawdd aer. Mae'n amlwg bod maint yr her yn golygu bod angen am benderfyniadau anodd a gweithredu beiddgar gan bawb, o unigolion yn eu cymunedau lleol i fusnesau ar draws yr economi, os ydym am gyflawni ein nod o aer glân i Gymru.

Mae disgwyl i'r Mesur gael ei gyflwyno ym mlwyddyn 2 tymor y Senedd.. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn gam hanfodol i gyflawni ein huchelgais i wella ansawdd aer a lleihau effeithiau llygredd aer ar iechyd pobl, bioamrywiaeth, yr amgylchedd naturiol a'n heconomi.

Commented [SE(EEP36): I've incorporated back into the previous paragraph

Commented [WD37]: We aren't meant to confirm the March date - in case it changes. All we can say is it is a year 2 Bill

Atodiad A

Ymatebwyr unigol

Chartier-Roberts, G.	Jenkins, Ray	Thorpe, Ryan
Clements, Roger	Liddell, John	Valadini, Ray
Doyle-Edwards, Michael	Matthews, Oliver	Welch, Jim
Heart, Scott	Richards, Anna	

Unigolion a fynychodd y digwyddiad ymgynghori rhithwir ar y cyd ar 11 Mawrth 2021

Adams, Rachel	Horsley, Nick	Morissette, Vicky
Brooks, Wilma	Jenkins, Trefor	Morrow, Karen
Campini, Paul	Johns, Sarah	Norman, Mathew
Carpenter, Gideon	Jones, Keith	Pollard, Sam
Chamberlain, Steve	Jones, Lisa	Prendergast, Jenny
Cottrill, Simon	Jones, Richard	Rees, Alun
Cunha, Alexandra	Jones, Wendy	Reynolds, Jamie
Evans, Gareth	Lane, Joanna	Roberts, Gemma
Garbutt, Ross	MacBride-Stewart, Sara	Sandoul, Tamara
Geddes, Anthony	Macdonald, Eirian	Thompson, Kate
Gibson, Paul	Mansfield, William	Verlaque, James
Hardiman, Rhiannon	Marsden, James	Ward, Dan
Hayes, Enda	Mather, John	White, Paul
Hayes, Rhiannon	Mayne, Brian	Zorn, Toby
Heney, Charlotte	Minett, Tim	
Hopton, Andrew	Morison, James	

Cyrff a ymateb i'r ymgynghoriad

Associated Society of Locomotive Engineers and Firemen

Awyr Iach Cymru

Cadwch Gymru'n Daclus

Canolfan Ecoleg a Hydroleg y DU

CBS Caerffili

CBS Castell-nedd Port Talbot

CBS Rhondda Cynon Taf

CIWM Cymru

CLA (Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad)

Cold Chain Consultant Highnam

Coleg Brenhinol GP Cymru

Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant

Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru

Cyfoeth Naturiol Cymru

Cyngor Dinas Casnewydd

Cyngor Sir Ceredigion

Cymdeithas Cynghorau Lleol y Gogledd a'r Canolbarth

Cymdeithas Genweirwyr Hendy-gwyn

Cymdeithas y Diwydiant Beiciau Modur

Cyswllt Amgylchedd Cymru

FDF Cymru

FSB

Gweithredu ar Ysmygu ac Iechyd Cymru

Heritage Railways

ICE Cymru

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Logistics UK

Mineral Products Association

Parciau Cenedlaethol Cymru
Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
Plantlife Cymru
Y Post Brenhinol
RHA
Y Sefydliad Acwsteg
Stove Industry Alliance
Strydoedd Byw Cymru
TUC Cymru
Undeb Amaethwyr Cymru
Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru
UPS
Ymddiriedolaeth Natur Cymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

OGL © Hawffraint y Goron 2023 ISBN ddigiol